


Cynllun Pensiwn yr Aelodau: Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2020-21

Gorffennaf 2021



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:

www.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru

Bae Caerdydd

CF99 1SN


© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2021

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynllun Pensiwn yr Aelodau: Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2020-21

Gorffennaf 2021





Cynnwys

Ymddiriedolwyr a chynghorwyr.....	6
Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 i aelodau Cynllun Pensiwn Aelodau Senedd Cymru.....	8
Datblygiad ariannol y Cynllun.....	13
Adolygiad actiwaraidd	15
Adroddiad buddsoddi - ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021.....	27
Cefndir yr economi a'r farchnad - 12 mis hyd at 31 Mawrth 2021.....	32
Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr dros y Datganiadau Ariannol	37
Datganiad Llywodraethu	39
Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Aelodau Senedd Cymru	44
Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2021	48
Nodiadau sy'n cyd-fynd â'r Cyfrifon	50
Datganiad yr Archwilydd Annibynnol	63
Datganiad yr Actiwari yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2021.....	64

Ymddiriedolwyr a chynghorwyr

Cadarnhaodd y Bwrdd Taliadau fel rhan o'i Benderfyniad ar gyfer y Bumed Senedd, yn unol â Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013, y dylid sefydlu Bwrdd Pensiynau i ddisodli Bwrdd yr Ymddiriedolwyr. O 6 Mai 2016 ymlaen, yn unol ag adran 5 o reolau newydd y Cynllun a ddaeth i rym o'r dyddiad hwnnw ymlaen, penodwyd Bwrdd Pensiynau newydd yn lle Bwrdd yr Ymddiriedolwyr. Mae cyfansoddiad y Bwrdd Pensiynau ar gyfer 2020-21 wedi cynnwys:

Rôl	Enw	Dyddiad penodi	Ymddiswyddo
Ymddiriedolwr Annibynnol (Cadeirydd)	Jill Youds	6 Mai 2016	
Ymddiriedolwr	Mike Hedges AS	6 Mai 2016	
Ymddiriedolwr	Nia Morgan	4 Awst 2016	
Ymddiriedolwr	Ieuan Wyn Jones	12 Hydref 2017	6 Mai 2021
Ymddiriedolwr	Robert Evans	20 Rhagfyr 2018	

Gwasanaethodd Mike Hedges ar y Bwrdd Ymddiriedolwyr blaenorol o 12 Hydref 2011 ymlaen.

Gweinyddu'r Cynllun

Ysgrifenyddiaeth y Cynllun sy'n rheoli'r Cynllun o ddydd i ddydd fel rhan o Wasanaethau Ariannol Comisiwn y Senedd. Dylid anfon unrhyw ymholiadau am bensiynau neu gais am unrhyw wybodaeth ychwanegol at yr Ysgrifenyddiaeth yn y cyfeiriad a ganlyn:

Cynllun Pensiwn Aelodau Senedd Cymru
Gwasanaethau Ariannol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Ar y dyddiad y cymeradwywyd yr adroddiad blynyddol, Gweinyddwyr y Cynllun oedd:

Donna Davies: Rhif ffôn: 0300 200 6523 ac e-bost:
Ysgrifennydd y Cynllun donna.davies@senedd.cymru

Liz Calder Rhif ffôn: 0300 200 6528 ac e-bost: liz.calder@senedd.cymru
Ysgrifennydd Cynorthwyol

Cynghorwyr y Cynllun a benodwyd gan yr Ymddiriedolwyr fel ar 31 Mawrth 2021

Actiwari Martin Clarke o Adran Actiwari'r Llywodraeth

Archwilydd Archwilydd Cyffredinol Cymru

Bancwyr Banc Barclays ccc

Rheolwyr Buddsoddi Baillie Gifford
Legal & General Investment Management ("LGIM")
Partners Group
BNY Mellon Investment Management ("BNYM")

Cynghorwr Cyfreithiol Eversheds Sutherland LLP

Cyfrifwyr y Cynllun Ysgrifenyddiaeth y Cynllun, Comisiwn y Senedd

Cynghorwr buddsoddi Quantum Advisory

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 i aelodau Cynllun Pensiwn Aelodau Senedd Cymru

Cefndir deddfwriaethol Cynllun Pensiwn Aelodau Senedd Cymru (“y Cynllun”)

Mae Senedd Cymru (y “Senedd”) yn darparu Cynllun budd-daliadau diffiniedig, a lywodraethir gan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Adran 20(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 11 i'r Ddeddf honno yn rhoi dilyniant i'r Cynllun. Nid yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi effeithio ar statws cyfreithiol y Cynllun.

Mae'r Cynllun yn darparu buddion ar gyfer Aelodau o'r Senedd (“yr Aelodau”) a Deiliaid Swyddi. Mae pob Aelod o'r Senedd yn aelod o'r Cynllun o'r dyddiad y mae'n ymuno â'r Senedd, oni bai ei fod yn benodol yn dewis peidio â gwneud hynny.

Cyflwynwyd Cynllun Pensiwn Cyfartaledd Gyrfa (CARE) ar 6 Mai 2016. Mae Aelodau a oedd yn 55 oed neu'n hŷn ar 1 Ebrill 2012 yn cael 'Diogelwch Trosiannol' ac yn parhau i gael eu buddion wedi'u cyfrifo ar sail cyflog terfynol am bum mlynedd ychwanegol tan 5 Mai 2021.

Ym mis Rhagfyr 2018, dyfarnodd y Llys Apêl fod y 'diogelwch trosiannol' a gynigiwyd i rai aelodau o gynlluniau'r barnwyr a'r diffoddwyr tân wedi arwain at wahaniaethu anghyfreithlon. Ar 15 Gorffennaf 2019, gwnaeth Prif Ysgrifennydd y Trysorlys ddatganiad gweinidogol ysgrifenedig yn cadarnhau, gan fod 'diogelwch trosiannol' yn cael ei gynnig i aelodau o holl brif gynlluniau pensiwn y gwasanaethau cyhoeddus, bod angen dileu'r darpariaethau a oedd yn arwain at wahaniaeth o ran triniaeth o'r holl gynlluniau ar gyfer aelodau a oedd wedi cyflawni'r cyfnod perthnasol o wasanaeth.

Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd yn gyfrifol am reolau Cynllun Pensiwn yr Aelodau. Ar ôl ystyried barn y Bwrdd Pensiynau, mae'r Bwrdd wedi cytuno y dylid mabwysiadu rhwymedi i gael gwared ar y gwahaniaethu yn rheolau Cynllun Pensiwn yr Aelodau o ganlyniad i'r darpariaethau diogelwch trosiannol sydd ynddynt ar hyn o bryd. Mae'r Bwrdd wedi cytuno i ymgynghori â'r Aelodau yr effeithir arnynt a Chomisiwn y Senedd ar rwymedi arfaethedig. Y cyfraniad a wnaed gan y Senedd ar 31 Mawrth 2020 oedd 19.9 y cant o gyflogau cyfansymiol

yr Aelodau. Mae Aelodau nad ydynt yn cael 'Diogelwch Trosiannol' yn talu cyfraniadau ar gyfradd o 10.5 y cant. Mae'r Aelodau hynny sy'n cael 'Diogelwch Trosiannol' yn parhau i dalu cyfraniadau ar eu cyfradd bresennol o naill ai 6 y cant neu 10 y cant, yn dibynnu a ydynt yn cronni buddion ar sail un rhan o 50 neu ar sail un rhan o 40, yn y drefn honno.

Y prif nodweddion yw:

- Bob blwyddyn, bydd yr aelodau'n cronni pensiwn sy'n cyfateb i un rhan o 50 o'u cyflog am y flwyddyn honno.
- Caiff y pensiwn a gronnir bob blwyddyn ei ailbriso yn unol â Gorchmynion y Trysorlys a wneir o dan Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013, a hynny'n unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) ar hyn o bryd.
- Mae buddion a gronnir yn y Cynllun Cyflog Terfynol yn cael eu diogelu'n llawn, a byddant yn parhau i fod yn gysylltiedig ag unrhyw gynnydd yn y dyfodol mewn cyflogau.
- Mae Deiliaid Swyddi yn ennill pensiwn CARE ychwanegol ar gyfer Deiliaid Swyddi, sef un rhan o 50 o'r cyflog y maent yn ei ennill bob blwyddyn fel Deiliaid Swyddi.
- Caiff yr Oedran Ymddeol Arferol ei gysylltu ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (neu 65 oed, pa un bynnag sydd uchaf). Bydd unrhyw bensiwn Cyflog Terfynol a gronnir cyn 6 Mai 2021 yn parhau i fod yn daladwy ar oedran ymddeol arferol o 65 oed.
- Caiff pensiynau sy'n cael eu talu eu mynegrifo i'r newidiadau yn y Gorchymyn Cynyddu Pensiynau (Adolygu).
- Cyfandaliad marwolaeth mewn gwasanaeth cyfwerth â chyflog o ddwy flynedd ynghyd â darpariaeth ar gyfer mwy nag un enwebai.

Trosglwyddiadau

Caiff gwerth yr holl symiau a drosglwyddir i Gynlluniau pensiwn eraill eu cyfrifo a'u gwirio gan Actiwari'r Cynllun yn unol â'r gofynion statudol. Ni wnaed unrhyw drosglwyddiadau allan o'r Gronfa yn ystod y flwyddyn.

Datblygiadau yn ystod y flwyddyn

Cadeirydd Annibynnol proffesiynol y Bwrdd yw Jill Youds. Mae Jill hefyd yn cadeirio'r Bwrdd Pensiynau Barnwrol a Bwrdd Ymddiriedolwyr Cynllun Comisiwn y Gwasanaethau Cyfreithiol ar gyfer y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae Jill yn

Ymddiriedolwr ac yn Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol yn yr Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Genedlaethol (NEST) ac yn gyfarwyddwr anweithredol yn y Bartneriaeth Pensiynau Lleol.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Bwrdd wedi ymgymryd â hyfforddiant ar y prisiad Cyllid ac adolygu'r strategaeth Fuddsoddi gan ystyried materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) mewn perthynas â buddsoddiadau cynllun pensiwn gyda ffocws penodol ar newid hinsawdd. Trafododd y Bwrdd sut y mae'r materion hyn yn dylanwadu ar adenillion buddsoddi cynaliadwy a sut y gallent effeithio ar gyllid y Cynllun a chyfraniadau cyflogeion a chyflogwyr. Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Bwrdd hyfforddiant ar Ddeddf Cynlluniau Pensiynau 2021 a diweddariad gan gynghorwr cyfreithiol y Cynllun ar gyfraith achosion pensiynau. Bydd yr holl Ymddiriedolwyr yn parhau i gael hyfforddiant i sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu rôl ac i fodloni gofynion y Rheoleiddiwr Pensiynau a Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013.

Cytunodd y Bwrdd Taliadau â chynnig y Bwrdd Pensiynau i ddiwygio Rheolau'r Cynllun i ganiatáu ymestyn y llinell amser ar gyfer cwblhau'r Adroddiad Prisio Actiwaraid ar gyfer 2020 mewn ymateb i'r pryderon ynghylch effaith COVID-19 a oedd yn dominyddu marchnadoedd yn ystod chwarter cyntaf 2020. Disgwylir adroddiad ar y canlyniadau prisio actiwaraid terfynol ym mis Gorffennaf 2021.

Mae'r Bwrdd Pensiynau wedi bod yn gweithio gyda'i Gynghorwr Buddsoddi (Quantum Advisory) i adolygu strategaeth fuddsoddi y Cynllun, a gyflwynwyd yn 2017. Mae gan y Bwrdd fuddsoddiadau mewn amrywiaeth eang o gronfeydd cyfun fel a ganlyn:

- Baillie Gifford Diversified Growth
- BNY Mellon Sustainable Real Return Fund
- Legal & General Investment Management ("LGIM") Managed Property
- Partners Group Generations
- LGIM Ethical Global Equity Index (heb ei warchod)
- LGIM Ethical Global Equity Index (GBP wedi'i warchod)
- LGIM Over 5 Year Index-Linked Gilt
- LGIM Cash - sylwer nad yw'n rhan o ddyraniad asedau strategol y Cynllun ac fe'i defnyddir ar sail ad hoc.

Yn eu cyfarfod ar 16 Tachwedd 2020, bu'r Ymddiriedolwyr yn trafod newidiadau arfaethedig i strategaeth fuddsoddi'r Cynllun. Cydnabu'r Ymddiriedolwyr y gallai'r ffordd y dyrennir yr asedau presennol ar draws y ddwy gronfa Twf Amrywiol fod yn fwy cyson ag amcanion yr Ymddiriedolwyr i leihau buddsoddiad y Cynllun mewn olew a nwy i sero dros gyfnod o bum mlynedd. Gwneir hyn ar yr amod bod cyfryngau buddsoddi addas ar gael dros y cyfnod ar gyfer maint y Cynllun. Yn sgil hyn, ym mis Rhagfyr 2020 cytunodd yr Ymddiriedolwyr i leihau buddsoddiad y Cynllun yng nghronfa Baillie Gifford Diversified Growth a buddsoddi mwy yng nghronfa BNY Mellon Sustainable Real Return.

Ni ddisgwylir i'r newid effeithio'n sylweddol ar lefel yr adenillion disgwyliedig sy'n gysylltiedig â strategaeth fuddsoddi'r Cynllun nac effeithio ar allu'r Cynllun i dargedu'r lefel ofynnol o adenillion buddsoddi i gefnogi rhagdybiaethau'r prisiad actiwaraid. Mae'r newid yn seiliedig ar gred y Bwrdd bod cwmnïau cynaliadwy yn fwy tebygol o sicrhau adenillion buddsoddi hirdymor.

Bydd y Bwrdd yn parhau i weithio gyda'i gynghorwyr buddsoddi i gytuno ar y ffordd orau o gyflawni ei nod i leihau buddsoddiadau'r Cynllun mewn olew a nwy ymhellach i sero dros y pum mlynedd nesaf.

Wrth reoli llif arian i'r etholiad, gofynnodd yr Ymddiriedolwyr am gyngor gan y Cynghorwr Buddsoddi a chytunwyd y dylid dal incwm cyfraniadau misol net yng nghyfrif banc y Cynllun i ariannu'r gofyniad arian parod ar gyfer aelodau sy'n cymryd eu buddion ar adeg yr etholiad. At hynny, gan y byddai unrhyw swm a ddelir yng nghyfrif banc y Cynllun uwchlaw'r swm a gwmpesir gan y Cynllun Digolledu Gwasanaethau Ariannol yn agored i risg diddyledrwydd y banc/banciau, penderfynodd yr Ymddiriedolwyr, ar ôl cael cyngor, sefydlu cronfa arian parod gyda Legal and General Investment Management ar gyfer cronfeydd arian parod sy'n ychwanegol at y swm gwarchoddedig.

Cynhaliodd yr Ymddiriedolwyr gyfarfod arbennig ar 30 Mawrth 2020 lle gofynnodd y Cynghorwr Buddsoddi i'r Bwrdd drafod y posibilrwydd o symud yr holl arian o'r gronfa LGIM Global Ethical Equity, neu rywfaent ohono, i gronfa arian cyfred wedi'i gwarchod o ganlyniad i'r gostyngiad yng ngwerth sterling yn erbyn doler yr Unol Daleithiau. Er bod sterling ar duedd ar i lawr yn erbyn y prif fathau eraill o arian cyfred fel doler yr Unol Daleithiau, mae wedi profi lefel gynyddol o gyfnewidioldeb ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd Pensiynau ar 16 Mawrth. Cytunodd y Bwrdd Pensiynau i warchod hanner buddsoddiad ecwiti uniongyrchol y Cynllun fel y byddai tua 12.5 y cant o asedau'r Cynllun a ddelir mewn daliadau ecwiti uniongyrchol yn parhau i fod yn agored i arian cyfred tramor drwy'r gronfa arian cyfred heb ei gwarchod.

O ran y darpariaethau diogelu trosiannol a geir mewn cynlluniau pensiwn diwygiedig ar gyfer y farnwriaeth a diffoddwyr tân, a gyflwynwyd fel rhan o ddiwygiadau i bensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus yn 2015, penderfynodd y Llys Apêl ym mis Rhagfyr 2018 eu bod yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol ar sail oedran, ac felly'n anghyfreithlon ("dyfarniad McCloud"). Roedd datganiad gweinidogol ysgrifenedig a wnaed gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys ar 15 Gorffennaf 2019 yn nodi bwriad y llywodraeth i unioni'r gwahaniaethu hwn ar draws pob cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus. Cynhaliodd Trysorlys EM ymgynghoriad ar rwymedi arfaethedig ar gyfer prif gynlluniau'r sector cyhoeddus a chyhoeddodd ymateb i'r ymgynghoriad ym mis Chwefror 2020 yn nodi sut y byddai'r gwahaniaethu yn cael ei unioni ar gyfer prif gynllun y sector cyhoeddus.

Mae rheolau Cynllun Pensiwn Aelodau Senedd Cymru hefyd yn cynnwys darpariaethau diogelu trosiannol ac mae cynghorwr cyfreithiol y Cynllun wedi cadarnhau bod dyfarniad McCloud yn berthnasol i Gynllun Pensiwn Aelodau Senedd Cymru ac y bydd angen rhoi rhwymedi ar waith i gywiro'r gwahaniaethu a achosir gan y darpariaethau diogelu trosiannol hyn. Y Bwrdd Taliadau sy'n penderfynu beth fydd y rhwymedi, gan mai'r Bwrdd sy'n gyfrifol am Reolau'r Cynllun.

Mae'r Bwrdd Pensiynau wedi ystyried goblygiadau Dyfarniad McCloud i'r Cynllun. Ar ôl cael cyngor priodol gan gynghorwr cyfreithiol ac actiwari'r Cynllun, cytunodd y Bwrdd ar rwymedi arfaethedig ar gyfer y gwahaniaethu sydd i'w ystyried gan y Bwrdd Taliadau. Unwaith y cytunir ar rwymedi arfaethedig, bydd y Bwrdd Taliadau yn ymgynghori â'r Aelodau yr effeithir arnynt. Yna bydd angen gwneud newidiadau i reolau'r Cynllun i gywiro'r gwahaniaethu, yn amodol ar gytundeb gan Drysorlys EM.

Yn unol â gofynion newydd yng ngorchymyn Ymchwilio i'r Farchnad Ymgynghori ar Fuddsoddiadau a Rheoli Ymddiriedol 2019, llofnododd y Cadeirydd Ddatganiad Cydymffurfiaeth yn cadarnhau cydymffurfiaeth y Cynllun â'r gorchymyn a chyflwynwyd hwn i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ym mis Rhagfyr 2020.

Rheoli'r Cynllun

Ceir rhestr o'r Ymddiriedolwyr a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn ar dudalen 6.

Cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr

Fel arfer, cynhelir cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr unwaith yn ystod pob un o sesiynau'r Senedd, ac weithiau cynhelir cyfarfodydd ychwanegol at ddibenion

penodol. Cyfarfu'r Ymddiriedolwyr deirgwaith yn ystod y flwyddyn. Mynychodd yr Ymddiriedolwyr ddau gyfarfod arbennig hefyd ar 4 Medi 2020 a 4 Chwefror 2021.

Caiff yr Ymddiriedolwyr weithredu yn ôl penderfyniad y mwyafrif sy'n bresennol mewn unrhyw gyfarfod o'r Ymddiriedolwyr lle ceir cworwm. Mae angen tri i gael cworwm mewn unrhyw gyfarfod o'r Ymddiriedolwyr, ac mae hynny'n cynnwys y Cadeirydd Annibynnol.

Datrys Anghydfodau Mewnol

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi rhoi gweithdrefn Datrys Anghydfodau Mewnol ar waith yn unol â gofynion Deddf Pensiynau 1995. Mae manylion am y weithdrefn ar gael gan Ysgrifenyddiaeth y Cynllun.

Datblygiad ariannol y Cynllun

Paratoi ac Archwilio'r Cyfrifon Blynyddol

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gofyniad i gael Cyfrifon Archwiliedig a Datganiad gan yr Archwilydd) 1996, Safon Adrodd Ariannol 102, sef y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon, a'r canllawiau a nodir yn y Datganiad o Arfer a Argymhellir (Diwygiedig 2018). Mae Ymddiriedolwyr y Cynllun wedi manteisio ar yr opsiwn i fabwysiadu'r diwygiadau i Safon Adrodd Ariannol 102, sef y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn Adolygiad Tair Blynedd y DU a Gweriniaeth Iwerddon ar gyfer 2017, Gwelliannau Cynyddrannol ac Eglurhad, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017, a'r Datganiad o Arfer a Argymhellir (diwygiedig 2018), yn gynnar ar gyfer y datganiadau ariannol hyn.

Caiff y cyfrifon hyn eu paratoi gan swyddogion y Senedd, ar ran yr Ymddiriedolwyr, a'u harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Cânt eu paratoi a'u harchwilio o dan Adrannau 41(1) a (6) o Ddeddf Pensiynau 1995 ac yn unol â'r Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gofyniad i dderbyn Cyfrifon Archwiliedig a Datganiad gan yr Archwilydd) OS 1996/1975.

Mae copïau o'r cyfrifon hyn ar gael gan yr Ysgrifenyddiaeth os gwneir cais amdanynt.

Crynodeb o'r wybodaeth ariannol

Mae'r tabl isod yn dangos yr incwm a'r gwariant yn ystod y cyfnod ar gyfer 2020-21 a ffigurau cymharol ar gyfer 2019-20 a'r sefyllfa asedau net.

- Yn ystod y cyfnod, ni throsglwyddwyd unrhyw gronfeydd newydd i Reolwyr y Gronfa i'w buddsoddi. Penderfynodd yr Ymddiriedolwyr yn eu cyfarfod ar 16 Mawrth 2020 y byddai'n ddoeth cronni cronfa arian parod wrth gefn yng nghyfrif banc y Cynllun i ymdrin ag unrhyw faterion annisgwyl a allai godi o ganlyniad i'r pandemig. Yn dilyn hynny, cytunodd yr Ymddiriedolwyr i sefydlu cronfa arian parod wrth gefn a ddelir gan LGIM ac y dylid defnyddio'r gronfa hon i ddal incwm dros ben, ac unrhyw anghenion llif arian ychwanegol. Yn dilyn hynny, cafodd swm o £670,000 ei ddadfuddsoddi o'r gronfa LGIM Ethical Global Equity Index - GBP wedi'i gwarchod, a'i ddal fel arian wrth gefn i dalu am y cyfandaliadau ymddeol sy'n daladwy i aelodau sy'n dewis hawlio eu pensiwn yn dilyn etholiad 2021 ac ar gyfer aelodau sy'n sefyll i lawr yn yr etholiad.
- Symudwyd asedau gwerth £7,161,272 o'r gronfa Baillie Gifford Diversified Growth i'r gronfa BNY Mellon Sustainable Real Return a hefyd symudwyd swm o £4,785,248.87 o'r gronfa LGIM Ethical Global Equity Index (heb ei gwarchod) i'r gronfa LGIM Ethical Global Equity Index (GBP wedi'i gwarchod).

Cyfanswm gwerth y Cronfeydd a fuddsoddwyd ar y farchnad ar 31 Mawrth 2021 oedd £43,589,404 (31 Mawrth 2020 £35,177,019).

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 £	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 £
Incwm sy'n gysylltiedig ag aelodau	1,448,355	1,462,907
Taliadau sy'n gysylltiedig ag aelodau	1,294,515	1,161,172
Ychwanegiadau net o drafodion ag aelodau	153,840	301,735
Adenillion net ar fuddsoddiadau	8,240,385	(2,202,447)
Cynnydd/(gostyngiad) yn y gronfa	8,394,225	(1,900,712)
Asedau net ar ddechrau'r flwyddyn	35,249,567	37,150,279
Asedau net ar ddiwedd y flwyddyn	43,643,792	35,249,567

Adolygiad actiwaraidd

Datganiad yr Actiwari yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2021

Mae Cynllun Pensiwn Aelodau Senedd Cymru wedi'i eithrio o'r gofyniad a nodir yn Rheoliadau Cynlluniau Pensiynau Galwedigaethol (Datgelu Gwybodaeth) 1996 i baratoi adroddiad a chyfrifon archwiliedig cyn pen saith mis ar ôl diwedd y flwyddyn gyfrifyddu. Fodd bynnag, bwriad yr Ymddiriedolwyr yw cydymffurfio ag ethos y ddeddfwriaeth, ac yn hynny o beth, mae'r datganiad hwn wedi'i baratoi yn yr un modd â phe bai'r ddeddfwriaeth yn cael ei gweithredu.

Asesiad Actiwaraidd

Nid yw'r Datganiadau Ariannol a geir ar dudalennau 48 i 49 yn ystyried y rhwymedigaethau i ddarparu buddion pensiwn sy'n dod yn ddyledus ar ôl diwedd y flwyddyn. Caiff y rhwymedigaethau hyn eu hystyried gan Actiwari'r Cynllun, sy'n gwneud prisiad actiwaraidd o rwymedigaethau o'r fath bob tair blynedd. Mae'r prisiad hwn yn ystyried sefyllfa ariannu'r Cynllun a lefel y cyfraniadau sy'n daladwy.

Cynhaliwyd asesiad actiwaraidd ffurfiol o'r Cynllun gyda dyddiad gweithredol, sef 1 Ebrill 2020, a'r prif amcan oedd gwneud argymhelliad i Ymddiriedolwyr y Cynllun ynghylch pennu cyfradd briodol ar gyfer cyfraniad y cyflogwr ar ôl y dyddiad hwnnw. Er bod swm cyfraniadau aelodau wedi'i bennu yn y Rheolau, mae cyfradd cyfraniad y cyflogwr yn cael ei bennu fel canran y cyflog sydd ei hangen i dalu balans y gost gyda'r bwriad o sicrhau y telir am fuddion y Cynllun yn ystod gwasanaeth gweithredol disgwylidig yr aelod â'r Senedd. Disgwylir yr adroddiad ar gyfer prisiad 2020 ym mis Gorffennaf 2021.

Mae'r dystysgrif actiwaraidd ffurfiol wedi'i chynnwys ar dudalennau 64-67.

Prisiad yr Actiwari

Mae'n ofynnol i Actiwari'r Cynllun baratoi adroddiad ar sefyllfa ariannol gyffredinol y Gronfa bob tair blynedd a gwneud argymhellion ar gyfradd cyfraniad y Senedd yn y dyfodol. Cwblhawyd y prisiad diweddaraf ar 1 Ebrill 2020, a disgwylir gosod yr adroddiad ar 6 Gorffennaf 2021 yn unol â rheolau'r Cynllun.

Roedd y datganiad gan yr Actiwari, dyddiedig 14 Mehefin 2021, yn argymhell y dylai'r gyfradd gyfrannu barhau yr un fath ar 19.9 y cant o gyflog pensiynadwy'r Aelodau. Mae'r gyfradd hon yn cynrychioli'r swm sy'n ofynnol i dalu costau'r

Cynllun er mwyn sicrhau y telir am fuddion a chyfraniadau'r Aelodau gan ystyried gwasanaeth presennol a gwasanaeth yn y dyfodol.

Mae'r dystysgrif ddilynol, dyddiedig 14 Mehefin 2021, (tudalennau 64-67) yn cadarnhau bod cyfraniad Comisiwn y Senedd o 19.9 y cant yn ddigonol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r lefel bresennol yn ddigonol i dalu am y budd-daliadau presennol. Mae'r datganiadau hyn yn seiliedig ar asedau a rhwymedigaethau'r Cynllun ar y dyddiad priso ond nid ydynt yn cynnwys unrhyw gostau sy'n deillio o ddyfarniad McCloud a chydraddoli GMP. Mae'r datganiadau hyn yn cydymffurfio'n llawn â gofynion Safon Cyfrifyddu Technegol TAS 100 a TAS 300 a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adroddiadau Ariannol. Disgwylir y prisiad tair blynedd nesaf ar 1 Ebrill 2020.

Aelodaeth

Nodir isod aelodaeth y Cynllun ar ddechrau ac ar ddiwedd y flwyddyn, a'r newidiadau yn ystod y flwyddyn.

Aelodau gweithredol	
Aelodaeth gyfrannol ar ddechrau'r flwyddyn, 1 Ebrill 2020 (58 Aelod o'r Senedd. O'r 60 Aelod o'r Senedd mae 42 yn Ddeiliaid Swyddi.)	58
Aelodau newydd yn ystod y flwyddyn	1
Aelodau sydd wedi gadael yn ystod y flwyddyn	0
Aelodau sydd wedi ymddeol yn ystod y flwyddyn	0
Marwolaeth mewn swydd	(1)
Aelodau a oedd yn cyfrannu ar 31 Mawrth 2021	58

Pensiynwyr	
Aelodau a oedd yn cael taliadau ar 1 Ebrill 2020	64
Aelodau sy'n ymddeol o wasanaeth gweithredol yn ystod y flwyddyn	0
Aelodau sy'n ymddeol o fod â statws gohiriedig	0
Dibynyddion newydd	1
Marwolaethau yn ystod y flwyddyn	(1)
Pensiynwyr a oedd yn cael taliadau ar 31 Mawrth 2021	64

Aelodau gohiriedig	
Ar 1 Ebrill 2020	20
Aelodau a adawodd gan gadw eu hawl i ohirio cymryd eu pensiwn	(0)
Aelodau sy'n ymddeol o fod â statws gohiriedig	(0)
Aelodau a drosglwyddodd fuddion allan o'r Cynllun	(0)
Aelodau sy'n gohirio cymryd eu pensiwn ar 31 Mawrth 2021	20

Cynnydd mewn pensiynau

Datgelir manylion am y taliadau a wnaed o'r Cynllun yn ystod y flwyddyn yn Nodyn 5 sy'n cyd-fynd â'r cyfrifon. Adolygir y pensiynau sy'n cael eu talu bob blwyddyn yn unol â'r Gorchymyn Cynnydd Pensiynau (Adolygu). Gosodwyd gorchymyn 2021 gerbron y Senedd ar 8 Mawrth 2021 a daeth i rym ar 12 Ebrill 2021.

Deiliaid Cronfeydd

Cronfa	Deiliad
Baillie Gifford	BNY Mellon
BNYM Sustainable Real Return Fund	BNY Mellon
Partners Group	BNY Mellon Trust & Depositary (UK) Limited
LGIM Managed Property Fund	HSBC
LGIM Cash	HSBC
LGIM Over 5 Year Index-Linked Gilt Index Fund	HSBC
LGIM Ethical Global Equity Index Fund (wed'i warchod a heb ei warchod)	Citibank (Gwarannau tramor) HSBC (Gwarannau'r DU)

Rheoli buddsoddiadau

Ceir mynediad at yr holl gronfeydd drwy Mobius Life Limited ("Mobius") a'r ffioedd a delir gan y Cynllun yw'r rhai a godir gan Mobius. Mae'r tabl isod yn nodi'r tâl

rheoli blynyddol a godir ar y Cynllun gan Mobius Life Limited am bob cronfa y buddsoddir ynddi.

Cronfa	Tâl rheoli blynyddol (%)
Baillie Gifford Diversified Growth	0.65
BNYM Sustainable Real Return Fund	0.69
Partners Group Generations	1.35
LGIM Ethical Global Equity Index (heb ei warchod)	0.35
LGIM Ethical Global Equity Index (wedi'i warchod)	0.365
LGIM Managed Property	0.64
LGIM Over 5 Year Index-Linked Gilts Index	0.08
LGIM Cash	0.10

Symudwyd asedau gwerth £7,161,272 o'r gronfa Baillie Gifford Diversified Growth i'r gronfa BNY Mellon Sustainable Real Return yn ystod mis Ionawr 2021. Yng nghyfarfod y Bwrdd Pensiynau ar 16 Mawrth gwnaed penderfyniad i warchod hanner y gronfa LGIM Ethical Global Equity Index fel y byddai tua 12.5 y cant o asedau'r Cynllun a ddelir mewn daliadau ecwiti uniongyrchol yn parhau i fod yn agored i arian cyfred tramor drwy'r gronfa arian cyfred heb ei gwarchod. Symudwyd cyfanswm o £4,785,249 o'r gronfa LGIM Ethical Global Equity Index (heb ei gwarchod) i'r gronfa LGIM Ethical Global Equity Index (GBP wedi'i gwarchod GBP).

Cost rheoli'r gronfa yn 2020-21 oedd £236,058 (2019-20 £231,049) ac roedd 'Treuliau Eraill' o £69,272 (2019-20 £67,019).

Mae holl gronfeydd y Cynllun yn cael eu cynnal drwy ateb gweithredu Mobius. Mae'r asedau'n cael eu dal o dan enw Mobius.

Polisi buddsoddi

Yr Ymddiriedolwyr sy'n pennu Polisi Buddsoddi'r Cynllun a bydd yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd. Nodir y polisi a oedd mewn grym ar 31 Mawrth 2021 yn y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi, sydd wedi'i fabwysiadu gan yr Ymddiriedolwyr, a gall Aelodau wneud cais i Ysgrifenyddiaeth y Cynllun i'w weld. Nid yw'r polisi'n caniatáu unrhyw fuddsoddiad cysylltiedig â'r cyflogwr.

Mae'r holl fuddsoddiadau wedi'u gwneud mewn daliannau a ganiateir gan reoliadau'r Cynllun ac na cheir eu gwahardd gan yr Ymddiriedolwyr.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi paratoi Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi, yn unol ag adran 35 o Ddeddf Pensiynau 1995, sy'n nodi eu polisiau buddsoddi a'u strategaeth ar gyfer eu cyflawni, ac mae copi ar gael gan Ysgrifenyddiaeth y Cynllun ar gais.

Mae cyfrifoldeb dros reoli buddsoddiadau o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i reolwyr buddsoddi sylfaenol priodol. Mae'r rheolwyr buddsoddi sylfaenol yn gweithredu yn unol â'r canllawiau a'r cyfyngiadau a nodir yn eu prosectws Cronfa. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn rhoi cyfarwyddiadau ynghylch rheoli buddsoddiadau o ddydd i ddydd at ddibenion llif arian o bryd i'w gilydd.

Bydd pob cynllun pensiwn yn rhan o bolisi oes sy'n gysylltiedig ag uned drwy Bolisi Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr (TIP). Mae gwerth y polisi yn gysylltiedig â'r buddsoddiadau sylfaenol, y cyfarwyddwyd Mobius Life i'w prynu gan y cynllun ac ar ei ran.

Effeithiau Covid-19

Yn dilyn cwmpïadau hanesyddol yn y farchnad ar ddiwedd chwarter cyntaf 2020 a ddaeth yn sgil y pandemig, sicrhaodd marchnadoedd (marchnadoedd risg yn benodol, gan gynnwys ecwiti) berfformiad cadarnhaol cyson ar y cyfan dros weddill 2020 ac i mewn i chwarter cyntaf 2021.

Yn gyffredinol, gwelwyd 'adlamu' parhaus o ran prisiau asedau yn ail a thrydydd chwarter 2020 yn dilyn y cwmpïadau cynharach. Fodd bynnag, creodd hyn rywffaint o ansicrwydd, a gwelwyd effaith ar hyder buddsoddwyr wrth i ranbarthau a sectorau o'r economi fyd-eang ailagor yn betrus ac wrth i 'donnau' dilynol y feirws ddod i'r amlwg, a'r cyfyngiadau symud yn sgil hynny. Adlewyrchwyd hyn yn y galw parhaus am asedau hafan ddiogel (fel bondiau'r llywodraeth) dros y cyfnod.

Ym mhedwerydd chwarter 2020 gwelwyd cynnydd sydyn yn hyder buddsoddwyr a ysgogwyd yn bennaf gan dri ffactor: (i) canlyniad Etholiad Arlywyddol yr Unol Daleithiau lle enillodd yr ymgeisydd Democrataidd, Joe Biden; (ii) cyhoeddi brechlynnau COVID-19 hyfyw gan Moderna a Pfizer; a (iii) y ffaith i Lywodraeth y DU sicrhau borgen o ran perthynas barhaus y DU â'r UE. Erbyn diwedd 2020 roedd nifer o fynegeion ecwiti rhanbarthol wedi dychwelyd i'w lefelau cyn COVID-19 (ac wedi rhagori ar hynny mewn rhai achosion). Mae'n werth nodi bod themâu cadarnhaol brechlynnau ac arlywyddiaeth Ddemocrataidd yn yr Unol Daleithiau wedi parhau i roi hwb i hyder buddsoddwyr yn ystod chwarter cyntaf 2021.

Dros y cyfnod, roedd ansicrwydd prisio ynghylch daliadau'r Cynllun yng nghronfa LGIM Managed Property. Yn sgil cynnydd y pandemig COVID-19, cyhoeddodd

prisiwr cronfa LGIM Property gymal Ansicrwydd Perthnasol (a sbardunwyd gan na ellid prasio asedau yn y portffolio yn gywir ac yn deg). Yn unol â hynny, cafodd y broses o fasnachu ar y Gronfa ei hatal dros dro ar 17 Mawrth 2020. Ar 1 Hydref 2020, ailddechreuwyd masnachu ar y Gronfa a chodwyd yr ataliad. Roedd y broses hon o ailddechrau masnachu yn adlewyrchiad o benderfyniad a wnaed gan fwrdd Legal and General Assurance (Pensions Management) Limited bod marchnadoedd wedi sefydlogi'n ddigonol, ar y cyd â'r ffaith bod prisiwr annibynnol y Gronfa wedi tynnu'r cymal ansicrwydd perthnasol o'r prisiau asedau eiddo yn y DU. Hwn oedd unig ddaliad y Cynllun yr effeithiwyd arno gan ansicrwydd prasio dros y cyfnod.

Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod, o ystyried ansefydlogrwydd uwch a hylifedd is y marchnadoedd, cynyddodd costau masnachu llawer o gronfeydd y Cynllun. Sylwer, ar 31 Mawrth 2021, roedd lefel y gwahaniaeth rhwng pris prynu a phris gwerthu ased (trading spread yn agos at y lefelau cyn y pandemig).

Yn dilyn perfformiad cryf ar draws 2020, gwaethygodd perfformiad marchnadoedd credyd yn chwarter cyntaf 2021. Fel y trafodwyd yn flaenorol, pan fydd buddsoddwyr yn fwy hyderus maent yn troi at asedau risg ar raddfa eang (y mae rhai'n ei gysylltu â dechrau cylch economaidd newydd) ac o'r herwydd mae'r galw cynyddol am asedau hafan ddiogel fel Dyled Llywodraeth y DU yn rhoi pwysau ar i fyny ar gynhyrchion bondiau. Arweiniodd hyn at gwmp nodedig ym mhrisiau asedau incwm sefydlog a gwelwyd erydiad sylweddol i rai asedau dyled, o gymharu â'r adenillion a wnaed yn 2020.

Yn erbyn y cefndir hwn, cynhyrchodd asedau'r Cynllun berfformiad cryf o thua 23.6 y cant dros y 12 mis hyd at 31 Mawrth 2021. O ystyried natur amrywiol asedau'r Cynllun, disgwylir y byddai perfformiad y Cynllun yn is na pherfformiad marchnadoedd ecwiti dros y cyfnod. Mae perfformiad y Cynllun yn deillio o nifer o ddsbarthiadau asedau eraill yn ogystal ag ecwiti, sy'n helpu'r Cynllun i reoli risg yn y portffolio buddsoddi. Fodd bynnag, perfformiodd y Cynllun yn sylweddol well na Bondiau Llywodraeth y DU a chyfradd ddisgownt y Cynllun (Mynegai Prisiau Defnyddwyr ynghyd â 2.5 y cant) dros y cyfnod, a ddychwelodd -10.4 y cant a 3.2 y cant, yn y drefn honno. Dod i gysylltiad ag asedau risg (drwy ddaliadau ecwiti goddefol a rheolwyr aml-ased gweithredol y Cynllun) oedd bennaf cyfrifol am berfformiad y Cynllun dros y cyfnod.

Effeithiodd amlygiad y Cynllun i Fondiau Llywodraeth y DU drwy'r mynegai LGIM Over 5 Year Index-Linked Gilts ar berfformiad i ryw raddau wrth i'r Gronfa ddychwelyd tua 2.5 y cant dros y cyfnod o 12 mis. Yn yr un modd, mae cwmpyadau mewn prisiau incwm sefydlog yn arwain at berfformiad di-nod gan

nifer o reolwyr aml-ased y Cynllun, o'i gymharu ag ecwiti, sy'n dod i gysylltiad â'r dosbarth asedau.

Perfformiad hyd at 31 Rhagfyr 2020

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion am berfformiad cronfeydd y Cynllun, a'u targedau priodol hyd at 31 Rhagfyr 2020.

	3 mis (%)	1 flwyddyn (%)	3 blynedd pa (%)	5 mlynedd pa (%)
Baillie Gifford Diversified Growth	5.4	2.3	2.9	4.6
Cyfradd Sylfaenol y DU ynghyd â 3.5% pa	0.9	3.7	4.0	4.0
Perfformiad cymharol	4.5	(1.4)	(1.1)	0.6
BNY Mellon Sustainable Real Return ¹	5.8	10.0	Amh	Amh
LIBOR Sterling 1 mis ynghyd â 4% pa	1.0	4.3	Amh	Amh
Perfformiad cymharol	4.8	5.7	Amh	Amh
Partners Group Generations ²	4.0	1.7	5.5	Amh
Targed absoliwt o 7-11% y flwyddyn	1.8	7.0	7.0	Amh
Perfformiad cymharol	2.2	(5.3)	(1.5)	Amh
LGIM Ethical Global Equity Index (heb ei warchod)	7.9	11.2	10.4	14.1
FTSE4Good Global Equity Index (heb ei warchod)	7.9	11.6	10.8	14.5
Perfformiad cymharol	0.0	(0.4)	(0.4)	(0.4)
LGIM Ethical Global Equity Index (sterling wedi'i warchod)	11.6	10.1	9.2	10.6
FTSE4Good Global Equity Index (sterling wedi'i warchod)	11.7	10.6	9.5	11.0
Perfformiad cymharol	(0.1)	(0.5)	(0.3)	(0.4)
LGIM Managed Property	2.1	(1.5)	1.4	2.8
Benchmark ³	2.1	(1.1)	2.3	3.9
Perfformiad cymharol	0.0	(0.4)	(0.9)	(1.1)
LGIM Over 5-Year Index Linked Gilts Index	1.4	12.3	6.1	9.3
FTSE Actuaries Index-Linked Index (Over 5 Year)	1.4	12.4	6.1	9.3
Perfformiad cymharol	0.0	(0.1)	0.0	0.0
Amcangyfrif o berfformiad y cynllun	6.3	7.0	5.7	7.3

Ffynhonnell: Baillie Gifford, BNY Mellon, Partners Group ac LGIM; heb gynnwys ffioedd. ¹Sefydlwyd y gronfa ym mis Ebrill 2018. ²Sefydlwyd y gronfa ym mis Ebrill 2016. ³Benchmark yw'r mynegai AREF/IPD UK Quarterly All Balanced Property Funds.

Perfformiad hyd at 31 Mawrth 2021

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion am berfformiad cronfeydd y Cynllun, a'u targedau priodol hyd at 31 Mawrth 2021.

	3 mis (%)	1 flwyddyn (%)	3 blynedd pa (%)	5 mlynedd pa (%)
Baillie Gifford Diversified Growth	(0.8)	17.6	0	4.4
Cyfradd Sylfaenol y DU ynghyd â 3.5% pa	0.9	3.6	4.0	3.9
Perfformiad cymharol	(1.7)	14.0	(1.6)	0.5
BNY Mellon Sustainable Real Return ¹	0.6	21.0	Amh	Amh
LIBOR Sterling 1 mis ynghyd â 4% pa	1.0	4.2	Amh	Amh
Perfformiad cymharol	(0.4)	16.8	Amh	Amh
Partners Group Generations ²	2.7	24.3	6.9	Amh
Targed absoliwt o 7-11% pa	1.8	7.0	7.0	Amh
Perfformiad cymharol	0.9	17.3	(0.1)	Amh
LGIM Ethical Global Equity Index (heb ei gwarchod)	4.3	37.5	14.0	14.7
FTSE4Good Global Equity Index (heb ei gwarchod)	4.5	38.0	14.4	15.1
Perfformiad cymharol	(0.2)	(0.5)	(0.4)	(0.4)
LGIM Ethical Global Equity Index (sterling wedi'i warchod)	6.8	47.6	12.8	12.8
FTSE4Good Global Equity Index (sterling wedi'i warchod)	6.9	48.1	13.1	13.2
Perfformiad cymharol	(0.1)	(0.5)	(0.3)	(0.4)
LGIM Managed Property	1.9	1.9	1.6	3.1
Benchmark ³	2.2	2.5	2.4	4.1
Perfformiad cymharol	(0.3)	(0.6)	(0.8)	(1.0)
LGIM Over 5-Year Index Linked Gilts Index	(7.0)	2.5	3.5	6.3
FTSE Actuaries Index-Linked Index (Over 5 Years)	(7.0)	2.6	3.5	6.4
Perfformiad cymharol	0.0	(0.1)	0.0	(0.1)
LGIM Cash	0.0	0.0	0.4	0.3
LIBID 7 diwrnod	0.0	0.0	0.4	0.3
Perfformiad cymharol	0.0	0.0	0.0	0.0
Amcangyfrif o berfformiad y cynllun	1.6	23.6	6.6	8.2

Ffynhonnell: Baillie Gifford, BNY Mellon, Partners Group ac LGIM; heb gynnwys ffioedd. ¹Sefydlwyd y gronfa ym mis Ebrill 2018. ²Sefydlwyd y gronfa ym mis Ebrill 2016. ³Benchmark yw'r mynegai AREF/IPD UK Quarterly All Balanced Property Funds. Sylwer, buddsoddodd y Cynllun i ddechrau yn naliad LGIM Cash yn ystod Ch1 2021.

Yn dilyn effeithiau'r pandemig COVID-19 ar farchnadoedd (y cyrhaeddodd rhai ohonynt eu pwynt isaf diweddar ddiwedd chwarter cyntaf 2020), mae asedau risg

y Cynllun wedi cynyddu'n gyson i raddau helaeth dros y 12 mis dilynol. Mae holl gronfeydd gweithredol y Cynllun (ac eithrio'r gronfa LGIM Managed Property) wedi perfformio'n well na'u priod dargedau dros y cyfnod o flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2021. Mae hyn yn cyferbynnu â pherfformiad deuddeng mis rheolwyr gweithredol y Cynllun ar 31 Rhagfyr 2020, lle roedd holl reolwyr gweithredol y Cynllun (ac eithrio BNY Mellon) wedi tanberfformio o gymharu â'u priod dargedau. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod chwarter cyntaf 2020 wedi'i gynnwys yn y cyfnod deuddeg mis a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2020, ond nid yn y cyfnod deuddeg mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021. Yn ystod tri mis cyntaf 2020, yn sgil ymddangosiad COVID-19 fel blaenwynt economaidd dirfodol, wynebodd marchnadoedd ecwiti byd-eang golledion sylweddol o tua 20 y cant.

Dros y tymor tair blynedd hyd at 31 Mawrth 2021, roedd perfformiad rheolwyr gweithredol y Cynllun yn gymysg ond yn gyffredinol gwelwyd tanberfformio gan bob rheolwr yn erbyn eu priod dargedau. Mae'r gronfa BNY Mellon Sustainable Real Return yn eithriad i hyn ac wedi perfformio'n well na'i tharged dros y cyfnod. Mae hyn yn adlewyrchu nodweddion amddiffynnol proses fuddsoddi'r Gronfa sy'n ceisio cynnig diogelwch cyfalaf yn ystod cyfnodau o straen ar y farchnad.

Wrth gymharu perfformiad y Cynllun ar gyfer y cyfnodau a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2020 a 31 Mawrth 2021 yn y drefn honno, gallwn weld bod perfformiad dros gyfnodau yr olaf yn gryfach (yn enwedig yn achos y cyfnod o ddeuddeng mis) ar draws pob cyfnod ac eithrio'r chwarter mwyaf diweddar. Mae tanberfformio cymharol rhwng chwarter cyntaf 2021 a phedwerydd chwarter 2020 yn adlewyrchiad o'r cynnydd sylweddol mewn cynnyrch a welwyd mewn marchnadoedd incwm sefydlog byd-eang ar ddechrau 2021. Cafodd hyn effaith negyddol nodedig ar ddaliad LGIM Over 5-Year Index-Linked Gilts y Cynllun (a ddychwelodd tua -7.0 y cant dros y cyfnod) a chronfeydd aml-ased gweithredol (sy'n cynnwys buddsoddiadau incwm sefydlog).

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol o'r dystiolaeth gynyddol sy'n cysylltu materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu ("ESG"), yn enwedig newid hinsawdd, â pherfformiad ariannol da â ffocws yn y dyfodol. Mae'r Ymddiriedolwyr am ystyried y materion hyn wrth weithredu'r strategaeth fuddsoddi ar gyfer y Cynllun, cyn belled nad yw hyn yn dylanwadu'n ormodol ar elw a phroffil risg y cronfeydd unigol, neu'r strategaeth, yn y dyfodol. Mae'r Bwrdd Pensiynau yn adolygu cymwysterau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu ei reolwyr yn flynyddol ac yn holi ei gynghorwyr am ymagwedd y rheolwyr at faterion ESG ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd Pensiynau.

Mae'r adrannau isod yn rhoi disgrifiad cryno, lefel uchel, o bolisiau ESG y Rheolwr. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried sut y mae'r ffactorau ESG yn cael eu hintegreiddio â'r prosesau buddsoddi yn fwy manwl wrth: (i) benodi rheolwyr buddsoddi newydd; a (ii) monitro'r rheolwyr buddsoddi presennol. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cael eu briffio'n rheolaidd ar faterion ESG gan eu cynghorwyr ac maent yn cael cyhoeddiadau sy'n gysylltiedig â materion ESG gan y rheolwyr buddsoddi presennol. Ymhellach, mae'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn adolygu cymwysterau ei reolwyr o ran ESG drwy adroddiad ESG blynyddol, ac yn holi ei gynghorwyr ynghylch ymagwedd y rheolwyr at ffactorau ESG yng nghyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn parhau i sicrhau bod egwyddorion ESG yn cael eu hymgorffori yn eu prosesau buddsoddi.

Mae tîm Baillie Gifford yn defnyddio polisi cadarn wrth weithredu ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu yn ei broses fuddsoddi ar lefel y cwmni a lefel y cronfeydd. Mae'n defnyddio dull buddsoddi gweithredol, "hirdymor yn unig", ac felly'n ymgorffori llywodraethu a chynaliadwyedd yn y broses fuddsoddi drwy ymchwil berchnogol. Mae'n gwneud defnydd helaeth o ymgysylltu a phleidleisio wrth annog arferion llywodraethu gorau'r cwmnïau y mae'n buddsoddi ynddynt. Mae Baillie Gifford yn disgwyl, o leiaf, i bob cwmni y mae'n buddsoddi ynddo weithredu yn unol â'r egwyddorion a'r safonau a nodir yng Nghompact Byd-eang y Cenhedloedd Unedig. Pryd bynnag y bydd perfformiad cwmni ar faterion allweddol yn sylweddol is na'r disgwyl, bernir ei fod yn risg sylweddol i berfformiad hirdymor ei fusnes. O'r herwydd, bydd Baillie Gifford yn ymgysylltu â'r rheolwyr yn y lle cyntaf cyn ystyried cymryd camau pleidleisio priodol.

Mae Baillie Gifford wedi bod yn un o lofnodwyr Egwyddorion Cyfrifoldeb y Cenhedloedd Unedig ("UNPRI") ers 2007. Mae'n sicrhau bod adroddiadau ar gael yn gyhoeddus ar ei gydymffurfiaeth â nifer o Godau Stiwardiaeth, gan gynnwys rhai'r DU, Japan a'r Gymdeithas Ewropeaidd ar gyfer Rheoli Asedau a Chronfeydd.

Ffynhonnell: Baillie Gifford

Fel rheolwyr y gronfa BNY Mellon Sustainable Real Return, mae gweithredu themâu ESG yn rhan bwysig o waith Newton. Mae buddsoddi cyfrifol yn rhan annatod o broses fuddsoddi Newton. Mae'n credu'n gryf bod cwmnïau a reolir mewn modd cyfrifol mewn sefyllfa well i sicrhau mantais gystadleuol gynaliadwy a sicrhau twf hirdymor. Mae'n ddull a arweinir gan fuddsoddiad sy'n dibynnu ar ddeall y materion, cynnal ymchwil berchnogol, ymgysylltu â chwmnïau a chymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu safonau. Pan fydd pryderon ynghylch materion ESG, ond y bernir bod modd eu datrys, bydd Newton yn llunio cynllun ymgysylltu â

therfyn amser. Os na fydd Newton yn gweld digon o gynnydd i'r cyfeiriad cywir dros yr amserlen honno, bydd Newton yn gwerthu'r daliad yn llwyr, sef ei gosb eithaf yn erbyn corfforaethau trafferthus. Ar ôl i warant gael ei ddewis ar gyfer y portffolio, mae Newton yn parhau â'r broses hon drwy fonitro proffil ESG y cwmni, yn ogystal ag ymgymryd â gwaith ymgysylltu a phleidleisio drwy ddirprwy (ar gyfer daliadau ecwiti). Mae Newton yn gwneud hyn ar amrywiaeth eang o bynciau, o gweithredol, i newid hinsawdd ac amrywiaeth yn y gweithle. Mae Newton yn atgyfnerthu'r gwaith ymgysylltu hwn gyda'r broses pleidleisio drwy ddirprwy gweithredol yn achos buddsoddiadau ecwiti. Mae Newton wedi bod yn llofnodwr i'r UNPRI ers 2007.

Ffynhonnell: Newton

Mae Partners Group yn nodi ei fod yn fuddsoddwr cyfrifol ymroddedig a phrofiadol sydd wedi ceisio datblygu a gwella'r dull o ymgorffori ffactorau ESG yn y broses gwneud penderfyniadau buddsoddi (sydd wedi'i lywio gan yr UNPRI). O ganlyniad i hyn, mae Partners Group wedi datblygu Polisi a Fframwaith Buddsoddi Cyfrifol, y mae'n ceisio ei gymhwyso i bob cyfle buddsoddi er mwyn integreiddio ffactorau ESG yn y broses gwneud penderfyniadau buddsoddi. Cred Partners Group fod y dull hwn yn lliniaru'r risgiau buddsoddi a bod ganddo'r potensial i wella'r adenillion buddsoddi er lles cleientiaid y cwmni a'i fuddiolwyr. Mae Polisi Buddsoddi Cyfrifol Partners Group yn ymgorffori'r ddau brif amcan ar gyfer integreiddio ffactorau ESG yn ei broses fuddsoddi ar gyfer pob dosbarth o asedau, sef:

yn gysylltiedig â buddsoddi: lliniaru'r risgiau buddsoddi a, lle bo'n bosibl, gwella'r adenillion buddsoddi.

yn gysylltiedig â moeseg: sicrhau bod yr asedau y buddsoddir ynddynt ar ran ei gleientiaid yn parchu a, lle bo hynny'n bosibl, o fudd i gymdeithas a'r amgylchedd.

Ffynhonnell: Partners Group

Mae tair o bob pump o'r cronfeydd LGIM a fuddsoddwyd ynddynt gan y Cynllun yn gronfeydd olrhain mynegeion ac, fel y cyfryw, mae hyn yn golygu mai ychydig o ddylanwad sydd gan y rheolwr o ran materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu a sut y cânt eu rheoli. O ran safbwynt corfforaethol, fodd bynnag, mae LGIM wedi ymrwymo i hyrwyddo materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu a sicrhau bod cwmnïau y mae'n buddsoddi ynddynt yn ymwybodol o'r materion hynny.

Mae LGIM wedi dangos parodrwydd i gefnogi/datblygu llywodraethu ac arferion/polisiau cymdeithasol da drwy gydweithio â chwmnïau a llunwyr polisiau sylfaenol (neu eu herio). Er enghraifft, yn y blynyddoedd diwethaf mae LGIM wedi:

(i) cryfhau ei bolisi o ran amrywiaeth y bwrdd a phleidleisio'n weithredol yn erbyn y cwmnïau hynny lle gwelwyd diffyg amrywiaeth, polisiau amrywiaeth gwael a datgeliadau amrywiaeth gwael (gan ystyried bod cyfalaf ariannol a dynol yr un mor bwysig); (ii) annog cwmnïau i ganolbwyntio ar berfformiad hirdymor wrth ystyried a gweithredu polisiau tâl cydnabyddiaeth; pleidleisio yn erbyn polisiau tâl cydnabyddiaeth a oedd yn annheg yn ei farn ef; a (iii) ceisio codi'r bar o ran llywodraethu corfforaethol drwy gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Cod Llywodraethu Corfforaethol mewn amrywiol ranbarthau. Gan ystyried bod newid hinsawdd yn ffactor pwysig sy'n dwyn risgiau ariannol, mae LGIM wedi dangos parodrwydd i ddwyn cwmnïau mwy i gyfrif o ran newid hinsawdd (cefnogi penderfyniadau ynghylch newid hinsawdd) drwy lansio ei Addewid Newid Hinsawdd.

Mae'r Cynllun wedi buddsoddi yng nghronfa LGIM Ethical Global Equity Index (mewn amrywiadau sterling heb eu gwarchod ac wedi'u gwarchod), sydd â'r nod o olrhain yr FTSE 4Good Developed Index, a ddyluniwyd fel mynegai ar gyfer buddsoddiadau sydd ag arferion ESG cryf. O'r cronfeydd LGIM eraill y mae'r Cynllun wedi buddsoddi ynddynt, mae un yn buddsoddi yn UK Government Index-Linked Debt ("Index-Linked Gilts"), un arall yn Eiddo masnachol y DU ac mae'r llall yn buddsoddi mewn gwarannau arian parod/"tebyg i arian parod".

Ffynhonnell: LGIM

Mae adroddiad buddsoddi sy'n ymwneud â'r polisiau buddsoddi yn ystod y flwyddyn ac adolygiad o berfformiad buddsoddiadau'r gronfa, ynghyd â natur, trefniadau a diogelwch yr asedau, i'w weld ar dudalennau 27-36. Mae gwerth Cronfeydd y Cynllun ar y farchnad i'w gweld yn Nodyn 9 o'r cyfrifon.

Jill Youds

Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr
(Ar ran yr Ymddiriedolwyr)

Nia Morgan

Ymddiriedolwr

Adroddiad buddsoddi – ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi paratoi Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi, sy'n nodi eu polisiau buddsoddi a'u strategaeth ar gyfer eu cyflawni, ac mae copi ar gael ar gais gan Ysgrifennydd y Cynllun. Mae'r cyfrifoldeb dros reoli buddsoddiadau o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i'r rheolwyr buddsoddi priodol, sy'n gweithredu'n unol â'r cytundeb sydd ar waith gyda Mobius. Mae Mobius yn gweithredu yn unol â'r cytundeb gyda'r Ymddiriedolwyr. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi penodi Quantum Advisory fel y cyngorwr buddsoddi ar gyfer y Cynllun. Mae buddsoddiadau'n cynnwys unedau mewn cronfeydd cyfun a reolir gan Baillie Gifford, BNY Mellon, Partners Group ac LGIM.

Prisiad Portffolio 31 Mawrth 2020

	31 Mawrth 2020 GBP
Baillie Gifford Diversified Growth	11,723,320
BNY Mellon Sustainable Real Return Fund	4,991,190
Partners Group Generations	3,437,660
LGIM Ethical Global Equity Index	9,285,978
LGIM Managed Property	1,819,919
LGIM Over 5 Year Index-Linked Gilts Index	3,918,952
Cyfanswm	35,177,019

Prisiad Portffolio 31 Mawrth 2021

	31 Mawrth 2021 GBP
Baillie Gifford Diversified Growth Fund	6,705,288
BNY Mellon Sustainable Real Return Fund	13,240,982
Partners Group Generations	4,272,143
LGIM Ethical Global Equity Index (heb ei warchod)	6,374,959
LGIM Ethical Global Equity Index (wedi'i warchod)	6,185,046
LGIM Managed Property	1,951,397
LGIM Over 5 Year Index-Linked Gilts Index	4,017,643
LGIM Life Cash Fund	841,946
Cyfanswm	43,589,404

Dosraniad yr Asedau

Dosraniad yr asedau oedd:

	31 Mawrth 2020 %
Baillie Gifford Diversified Growth	33.3
BNY Mellon Sustainable Real Return	14.2
Partners Group Generations	9.8
LGIM Ethical Global Equity Index (heb ei warchod)	26.4
LGIM Managed Property	5.2
LGIM Over 5 Year Index-Linked Gilts Index	11.1
CYFANSWM	100.0

	31 Mawrth 2021 %
Baillie Gifford Diversified Growth ¹	15.4
BNY Mellon Sustainable Real Return ¹	30.4
Partners Group Generations	9.8
LGIM Ethical Global Equity Index (heb ei warchod)	14.6
LGIM Ethical Global Equity Index (sterling wedi'i warchod)	14.2
LGIM Managed Property	4.5
LGIM Over 5 Year Index-Linked Gilts Index	9.2
LGIM Cash ³	1.9
CYFANSWM	100.0

¹Dros y cyfnod o 12 mis, newidiwyd dyraniadau'r Cynllun yng nghronfa Baillie Gifford Diversified Growth a chronfa BNY Mellon Sustainable Real Return. Y dyraniad asedau strategol o ganlyniad i hyn oedd 17 y cant a 33 y cant, yn y drefn honno.

²Dros y cyfnod, dyrannodd y Cynllun hanner ei ddaliadau mewn ecwiti i gronfa LGIM Ethical Global Equity Index (sterling wedi'i gwarchod) (amrywiad sterling wedi'i warchod o gronfa ecwiti bresennol y Cynllun).

³Yn ystod y cyfnod 12 mis cyflwynwyd y Gronfa LGIM Cash a gall yr Ymddiriedolwyr, ar adegau pan fo angen lefel uchel o lif arian (fel cyn etholiad), ei defnyddio at ddibenion rheoli risg. Er gwybodaeth, nid yw'r Gronfa yn rhan o ddyraniad asedau strategol y Cynllun.

Amcan Perfformiad

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi dewis cronfeydd sydd â'r amcanion perfformiad a ganlyn ar gyfer y rheolwyr buddsoddi sy'n ystyried proffil rhwymedigaethau'r gronfa a'r lefel o risg sy'n briodol ym marn yr Ymddiriedolwyr.

Baillie Gifford Diversified Growth Pension Fund	Cronfa (heb gynnwys taliadau rheoli blynyddol y Cynllun)	Meincnod +3.5 y cant
Perfformio 3.5 y cant y flwyddyn (heb gynnwys ffioedd) yn well na chyfradd sylfaenol y DU dros gyfnodau treigl o bum mlynedd gyda chyfnewidioldeb blynyddol o lai na 10 y cant.		
Pum mlynedd (y flwyddyn)	4.4	3.9
Tair blynedd (y flwyddyn)	2.4	4.0
Un flwyddyn	17.6	3.6

BNY Mellon Sustainable Real Return Fund	Cronfa (heb gynnwys taliadau rheoli blynyddol y Cynllun)	Meincnod
Sicrhau adenillion arian parod o (LIBOR 1 mis) +4 y cant y flwyddyn dros gyfnod treigl o 5 mlynedd cyn ffioedd. Wrth wneud hynny, nod y strategaeth yw sicrhau adenillion cadarnhaol ar sail dreigl dros 3 blynedd.		
Ers ei sefydlu (y flwyddyn)	8.2	4.5
Un flwyddyn	21.0	4.2

Partners Group Generations Fund	Cronfa (heb gynnwys ffioedd safonol)	Meincnod
Mae'r Gronfa yn targedu adenillion net o 7 y cant i 11 y cant y flwyddyn o ffioedd dros gylch marchnad lawn. Mae pen isaf y targed hwn (h.y. 7 y cant y flwyddyn) wedi'i ddefnyddio yn y tabl perfformiad isod.		
Ers ei sefydlu (y flwyddyn) (Ebrill 2016)	7.7	7.0
Tair blynedd (y flwyddyn)	6.9	7.0
Un flwyddyn	24.3	7.0

LGIM Ethical Global Equity Index Fund (heb ei warchod)	Cronfa (heb gynnwys ffioedd safonol)	Meincnod
Amcan buddsoddi'r Gronfa yw olrhain perfformiad yr FTSE4Good Global Equity Index (namyn y dreth atal), a hynny o fewn +/- 0.5 y cant y flwyddyn am ddwy flynedd allan o dair.		
Pum mlynedd (y flwyddyn)	14.7	15.1
Tair blynedd (y flwyddyn)	14.0	14.4
Un flwyddyn	37.5	38.0

LGIM Ethical Global Equity Index Fund (sterling wedi'i warchod)	Cronfa (heb gynnwys ffoedd safonol)	Meincnod
Amcan buddsoddi'r Gronfa yw olrhain perfformiad yr FTSE4Good Global Equity Index (sterling wedi'i warchod) (namyn y dreth atal), a hynny o fewn +/- 0.5 y cant y flwyddyn am ddwy flynedd allan o dair.		
Pum mlynedd (y flwyddyn)	12.8	13.2
Tair blynedd (y flwyddyn)	12.8	13.1
Un flwyddyn	47.6	48.1

Dros y cyfnod, dyrannodd y Cynllun hanner ei ddaliadau mewn ecwiti i LGIM Ethical Global Equity Index (sterling wedi'i warchod) (amrywiad sterling wedi'i warchodo gronfa ecwiti bresennol y Cynllun).

LGIM Managed Property Fund	Cronfa (heb gynnwys taliadau rheoli blynyddol y Cynllun)	Meincnod
Nod y Gronfa yw perfformio'n well na'r AREF/IPD UK Quarterly All Balanced Property Funds Index dros gyfnodau o dair a phum mlynedd.		
Pum mlynedd (y flwyddyn)	3.1	4.1
Tair blynedd (y flwyddyn)	1.6	2.4
Un flwyddyn	1.9	2.5

LGIM Over 5 Year Index-Linked Gilts Index Fund	Cronfa (heb gynnwys taliadau rheoli blynyddol y Cynllun)	Meincnod
Amcan buddsoddi'r Gronfa yw olrhain perfformiad yr FTSE Actuaries Index-Linked (Over 5 Year) Index, a hynny o fewn +/- 0.25 y cant y flwyddyn am ddwy flynedd allan o dair.		
Pum mlynedd (y flwyddyn)	6.3	6.4
Tair blynedd (y flwyddyn)	3.5	3.5
Un flwyddyn	2.5	2.6

LGIM Cash Fund	Cronfa (heb gynnwys taliadau rheoli blynyddol y Cynllun)	Meincnod
Amcan buddsoddi'r Gronfa yw perfformio'n unol â 7 Day GBP LIBID.		
Pum mlynedd (y flwyddyn)	0.3	0.3
Tair blynedd (y flwyddyn)	0.4	0.4
Un flwyddyn	0.0	0.0

Yn ystod y cyfnod 12 mis cyflwynwyd y gronfa LGIM Cash a gall yr Ymddiriedolwyr, ar adegau pan fo angen lefel uchel o lif arian (fel cyn etholiad), ei defnyddio at ddibenion rheoli risg. Er gwybodaeth, nid yw'r Gronfa yn rhan o ddyraniad asedau strategol y Cynllun.

Ffynhonnell: Partners Group, LGIM, Baillie Gifford a BNY Mellon

Crynodeb o Ystadegau Risg

Baillie Gifford Diversified Growth Pension Fund	
Cyfnewidioldeb a gyflawnwyd	6.7%

Cyfnewidioldeb blynyddol, wedi'i gyfrifo dros 5 mlynedd tan ddiwedd mis Mawrth 2021.

Ffynhonnell: Baillie Gifford

BNY Mellon Sustainable Real Returns Fund	
Cyfnewidioldeb a gyflawnwyd (y flwyddyn)	6.7 y cant

Cyfnewidioldeb blynyddol, wedi'i gyfrif ers sefydlu'r Gronfa (Ebrill 2018) hyd at ddiwedd mis Mawrth 2021. Cyfrifir cyfnewidioldeb gan ddefnyddio prisiau dyddiol ar gyfer y Gronfa oherwydd y cyfnod byrrach ers ei sefydlu.

Ffynhonnell: Newton

Cefndir yr economi a'r farchnad – 12 mis hyd at 31 Mawrth 2021

Cefndir y farchnad

Dros y 12 mis hyd at fis Mawrth 2021, roedd marchnadoedd byd-eang yn canolbwyntio'n llwyr ar eu hadferiad o'r cythrwfl hanesyddol a welwyd ar ddechrau 2020. Arweiniodd ymdrech sylweddol a chydgyssylltiedig gan lywodraethau a banciau canolog (fel y Gronfa Ffederal, Banc Lloegr a Banc Canolog Ewrop), ynghyd â datblygiadau wrth gynhyrchu a chyflwyno rhaglenni brechu, at adfer hyder buddsoddwyr ar gyfer mwyafrif y cyfnod. Roedd canlyniadau etholiad Arlywyddol yr Unol Daleithiau yn arwyddocaol hefyd, gyda'r fuddugoliaeth i Blaid y Democratiaid, a sicrhau fframwaith addas ar gyfer masnach rhwng y DU a'r UE yn dilyn diwedd cyfnod pontio Brexit. Rhoddodd y ddau ddigwyddiad hwb pellach i hwyliau buddsoddwyr tuag at ddiwedd 2020.

O ran y marchnadoedd ecwiti datblygedig, yn gyffredinol gwelwyd perfformiad cadarnhaol cyson yn ystod y cyfnod. Parhaodd yr adferiad gyhyd nes bod llawer o fynegeion y farchnad nid yn unig yn gwella o'r sioc yn sgil COVID-19, ond hefyd yn symud i'w lefelau uchaf erioed. Ni chododd ecwiti mewn ffordd unffurf, fodd bynnag. Mewn rhai sectorau 'twf' traddodiadol fel technoleg gwelwyd adferiad mwy serth, tra bod prisiau'n gwella'n arafach mewn sectorau eraill sy'n fwy sensitif i gylchoedd, fel ynni. Yn ystod 2021, mae hyn wedi gwrthdroi, gyda sectorau sy'n fwy sensitif i gylchoedd yn perfformio'n well.

Cafodd asedau hafan ddiogel, fel bondiau Llywodraeth y DU a Doler yr Unol Daleithiau adenillion cymysg dros y cyfnod. Yn ystod 2020 bu galw parhaus am fondiau'r llywodraeth, a adlewyrchir mewn cynnyrch is a phrisiau bondiau uwch. Fodd bynnag, bu i hyn wrth-droi'n sydyn yn chwarter cyntaf 2021, gyda buddsoddwyr yn priso yn eu tro yn y cylch economaidd. Yn unol â hynny, cododd y cynnyrch yn sydyn dros y cyfnod a gostyngodd prisiau bondiau i raddau isel iawn o gymharu â'r prisiau a welwyd yn 2020.

Ffynhonnell: Quantum Advisory

Strategaethau Aml-ased

Yn gyffredinol, roedd y mwyafrif o gronfeydd aml-ased yn adlewyrchu cyfeiriad y farchnad ecwiti dros y cyfnod. Sicrhaodd llawer o strategaethau traddodiadol adenillion cadarnhaol cyson dros y cyfnod hyd at ddiwedd 2020. O ran cronfeydd aml-ased a oedd yn agored i asedau incwm sefydlog, gwelwyd rhywfaint o

berfformiad di-nod yn chwarter cyntaf 2021 ac arweiniodd cynnyrch cynyddol at adenillion negyddol. Roedd perfformiad cronfeydd â mwy o ddyraniadau i ecwiti (o'i gymharu ag incwm sefydlog) yn gryfach yn gyffredinol gan fod modd iddynt fanteisio ar dueddiadau ar i fyny mewn marchnadoedd ecwiti.

Ffynhonnell: Quantum Advisory

Bondiau'r Llywodraeth

Yn gyffredinol, cododd cynnyrch bondiau enwol hirdymor Llywodraeth y DU dros y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2021, tra gostyngodd cynnyrch bondiau real hirdymor Llywodraeth y DU, gyda giltiau enwol y DU yn dychwelyd -10.4 y cant a giltiau mynegrifol yn dychwelyd 2.6 y cant. Mae hyn yn cyfateb i ddisgwyliadau chwyddiant cynyddol dros y cyfnod, a chafodd hynny effaith gadarnhaol ar bris giltiau mynegrifol o'u cymharu â giltiau enwol. Cafodd y galw am giltiau ei lywio i raddau helaeth gan fuddsoddwyr yn troi at (yn chwarter cyntaf 2021) i asedau risg ar draul dal bondiau'r Llywodraeth, gan arwain at wthio prisiau i lawr a chynyddu cynnyrch.

Ffynhonnell: Quantum Advisory

Eiddo

Wynebodd marchnad eiddo'r DU anawsterau amlwg dros y cyfnod wrth i'r cyfyngiadau symud parhaus a weithredwyd gan Lywodraeth y DU roi pwysau ar y dosbarth asedau. Cafodd hyn yr effaith o herio ymhellach sectorau sy'n ddibynol iawn ar niferoedd ymwelwyr (megis asedau manwerthu a hamdden). Roedd asedau manwerthu eisoes yn wynebu heriau strwythurol ar ddechrau'r cyfnod a gwaethygodd yr heriau hynny. Gwnaeth rhai sectorau fel asedau diwydiannol yn well dros y cyfnod gan eu bod yn gallu ailagor yn gynt ac elwodd meysydd fel warysau ar y twf sydyn mewn manwerthu ar-lein wrth i siopwyr wario eu harian ar-lein yn lle ar y stryd fawr.

Ffynhonnell: Quantum Advisory

Marchnadoedd preifat

Perfformiodd marchnadoedd preifat yn gyson gadarnhaol dros y cyfnod, yn dilyn colledion sydyn a gafwyd dros chwarter cyntaf 2020. Mae'n arwyddocaol nodi bod dau brif ffactor wedi ysgogi hyn: (i) perfformiadau cadarnhaol sylweddol mewn marchnadoedd ecwiti cyhoeddus (y mae marchnadoedd preifat yn cyfateb iddynt i raddau); a (ii) polisi ariannol ystywyth a oedd yn caniatáu mwy o fynediad at fenthyca rhad (a ysgogodd gynnydd mewn trafodion marchnadoedd preifat yn ddiweddarach yn y cyfnod). Yn y pen draw, roedd marchnadoedd preifat ar ei hôl

hi o gymharu â marchnadoedd cyhoeddus dros y cyfnod, sy'n adlewyrchu'r ffaith bod marchnadoedd cyhoeddus yn fwy cyfnewidiol (ac roeddent yn gwella ar ôl cwmpadau cymharol mwy serth a gafwyd ar ddiwedd Ch1 2020 oherwydd y pandemig COVID-19 o'i gymharu ag asedau marchnadoedd preifat).

Ffynhonnell: Partners Group

Y Daliadau mwyaf – Y Deg Uchaf

Baillie Gifford Diversified Growth Pension Fund	Canran o'r portffolio
Baillie Gifford Global Income Growth Fund	4.7
Baillie Gifford Global Alpha Growth Fund	4.4
Baillie Gifford Long Term Global Growth Investment Fund	3.8
Baillie Gifford Emerging Markets Bond Fund	2.6
Baillie Gifford Worldwide Japanese Fund	2.4
Plutus CLO Fund	2.2
WisdomTree Nickel	2.1
UBS CSI 500 NTR Index plus 8.25%	2.1
Baillie Gifford Worldwide Global Strategic Bond Fund	1.9
Baillie Gifford US High Yield Credit	1.9

BNY Mellon Sustainable Real Return Fund	Canran o'r portffolio
BNP Paribas Issuance B.v. 0.0% 18/11/2021	2.5
WisdomTree Physical Swiss Gold	2.3
Greencoat UK Wind	2.2
iShares Physical Gold	2.0
Linde	1.9
CME Group	1.6
Texas Instruments	1.5
Barclays Bank PLC S&P Coll Nts 10/08/2021	1.5
JPMorgan Chase	1.5
Barclays Bank PLC S&P Coll Nts 07/08/2021	1.5

Partners Group Generations Fund	Canran o'r portffolio
GlobalLogic	4.8
Techem Metering	1.5
Zabka Polska SA	1.4
CPA Global	1.4
Ammega	1.2

Sylwer mai dim ond ar gyfer y pum daliad uchaf y mae Partners Group yn darparu gwybodaeth gyhoeddus ar gyfer cronfa Generations.

LGIM Ethical Global Equity Index Fund	Canran o'r portffolio
Apple Inc	5.8
Microsoft Corp	5.3
Alphabet Cl A	1.8
Alphabet Cl C	1.8
Johnson & Johnson	1.3
Visa Inc Class A	1.1
Walt Disney Company	1.0
Home Depot Inc	1.0
Procter & Gamble Company	1.0
Nvidia Corp	0.9

Sylwer bod y Cynllun wedi buddsoddi yn nosbarthiadau cyfranddaliadau sterling heb eu gwarchod ac wedi'u gwarchod y gronfa LGIM Ethical Global Equity Index, fodd bynnag, mae'r ddau ddsbarth cyfranddaliadau yn rhannu'r un deg daliad sylfaenol uchaf.

LGIM Managed Property Fund	Canran o'r portffolio
Brentford - Parc Diwydiannol West Cross	4.7 - 5.0
Llundain - Safle Strand Island	4.4 - 4.7
Basingstoke - Parc Busnes Kingsland	3.1 - 3.5
Manceinion - One Piccadilly	2.8 - 3.1
Reading - Apex Plaza	2.8 - 3.1
Llundain - 76-88 Wardour Street	2.5 - 2.8

Caergrawnt - Parc Gwyddoniaeth Caergrawnt	2.2 - 2.5
Llundain - Yotel London Clerkenwell	2.2 - 2.5
Maidenhead - Grenfell Island	1.9 - 2.2
Bedford - Parc Manwerthu Interchange	1.9 - 2.2

LGIM Over 5 Year Index-Linked Gilts Index Fund	Canran o'r portffolio
Trysorlys y DU 1.25% 2055	6.1
Trysorlys y DU 0.125% 2068	5.8
Trysorlys y DU 0.375 y cant 2062	5.6
Trysorlys y DU 0.5% 2050	5.0
Trysorlys y DU 1.125% 2037	4.9
Trysorlys y DU 0.75% 2047	4.8
Trysorlys y DU 0.625% 2040	4.7
Trysorlys y DU 1.25% 2032	4.6
Trysorlys y DU 0.125% 2044	4.5
Trysorlys y DU 0.625% 2042	4.5

LGIM Cash	Canran o'r portffolio
Trysorlys y DU	22.7
Bred-Banque Populaire	8.4
Cooperatieve Rabobank UA	8.4
BNP Paribas London	8.4
PMC Loan	8.4
Sumitomo Mitsui Banking	8.3
National Bank of Canada	8.1
Bank of Tokyo-Mitsub London	8.1
DZ Bank AG	8.1
Cymdeithas Adeiladu Nationwide	6.2

Ffynhonnell: Partners Group, LGIM ,Baillie Gifford a BNY Mellon

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr dros y Datganiadau Ariannol

Yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am y Datganiadau Ariannol. Nid yw'n ofynnol drwy statud i'r Ymddiriedolwyr gydymffurfio â rheoliadau cynlluniau pensiwn, ond maent wedi cytuno i wneud hynny pan fydd yn bosibl oherwydd ei fod yn arfer da. Yn ôl y rheoliadau, rhaid i'r Ymddiriedolwyr sicrhau bod datganiadau ariannol archwiliedig ar gyfer bob Cynllun ar gael i aelodau'r Cynllun, buddiolwyr a rhai partïon eraill a bod yn rhaid i'r datganiadau hyn wneud y canlynol:

- Rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y Cynllun yn ystod blwyddyn y Cynllun ac o faint a sefyllfa'r asedau a'r rhwymedigaethau ar ddiwedd y flwyddyn honno, ar wahân i'r rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion ar ôl diwedd blwyddyn y Cynllun, a
- Chynnwys y wybodaeth benodol yn yr Atodlen i'r Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gofyniad i gael Cyfrifon Archwiliedig a Datganiad gan yr Archwilydd) 1996, gan gynnwys datganiad yn nodi a yw'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir 'Adroddiadau Ariannol o Gynlluniau Pensiwn'.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi goruchwylio'r gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol ac maent wedi cytuno ar bolisiau cyfrifyddu addas, sydd i'w gweithredu'n gyson, gan wneud unrhyw amcangyfrifon a dod i unrhyw farn ar sail ddarbodus a rhesymol.

Yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau'r Cynllun ac argymhellion yr Actiwari o ran y cyfraniadau sy'n daladwy i'r Cynllun gan y cyflogwr ac aelodau gweithredol y Cynllun, neu ar eu rhan, a'r dyddiadau erbyn pryd mae angen talu'r cyfraniadau. Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am gadw cofnod o gyfraniadau a dderbyniwyd mewn perthynas ag unrhyw aelod gweithredol o'r Cynllun ac am sicrhau bod cyfraniadau'n cael eu gwneud i'r Cynllun yn unol ag argymhellion Actiwari'r Cynllun.

Hefyd, mae gan yr Ymddiriedolwyr gyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu digonol yn cael eu cadw ac am gymryd y camau rhesymol sydd ar gael iddynt i ddiogelu asedau'r Cynllun ac i atal a darganfod unrhyw dwyll neu anghysonderau eraill, gan gynnwys cynnal dulliau rheoli mewnlod priodol.

Crynodeb o'r cyfraniadau a dalwyd yn ystod y flwyddyn

Dyma'r cyfraniadau a dalwyd i'r Cynllun yn ystod y flwyddyn gan y Cyflogwr yn unol ag argymhellion yr Actiwari:

	2020-21 £	2019-20 £
Cyfraniadau arferol y cyflogwr	950,830	1,040,069
Cyfraniadau arferol y cyflogai	497,500	543,652
Cyfanswm	1,448,330	1,583,721

Cysoni'r cyfraniadau a dalwyd, a welir uchod, â'r cyfraniadau a nodwyd yn y datganiadau ariannol:

	2020-21 £	2019-20 £
Cyfraniadau a dalwyd	1,448,330	1,583,721
Namyn balans agoriadol dyledwyr	0	(121,153)
Ychwaneger balans terfynol dyledwyr	0	0
Cyfanswm y cyfraniadau a nodwyd yn y datganiadau ariannol	1,448,330	1,462,568

Jill Youds

Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr
(Ar ran yr Ymddiriedolwyr)

Dyddiad 5 Gorffennaf 2021

Nia Morgan

Ymddiriedolwr

Datganiad Llywodraethu

Cwmpas y Cyfrifoldeb

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb fel Ymddiriedolwyr dros gynnal system gadarn o lywodraethu i ddiogelu cronfeydd ac asedau cyhoeddus sy'n gysylltiedig â Chynllun Pensiwn Aelodau Senedd Cymru. Caiff cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr eu diffinio'n glir yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr ar dudalen 37.

Mae Cynllun Pensiwn Aelodau Senedd Cymru yn gynllun statudol ac mae'n gynllun pensiwn cofrestredig o dan Ddeddf Cyllid 2004. Mae'r Cynllun wedi'i gofrestru gyda'r Rheoleiddiwr Pensiynau a rhif Cofrestrfa'r Cynllun Pensiwn (PSR) yw 12015963. Cyfeirnod Treth y Cynllun Pensiwn (PSTR) yw 00462258RW.

Mae'r Tîm Pensiynau o fewn Gwasanaethau Ariannol y Senedd yn darparu gwasanaethau ysgrifenyddol a gweinyddol i'r Ymddiriedolwyr ac mae'r trefniant hwnnw wedi ei gynnwys mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Bwrdd Taliadau'r Senedd (y Bwrdd), Comisiwn y Senedd (y Comisiwn) a'r Ymddiriedolwyr. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn nodi rolau a chyfrifoldebau priodol y Bwrdd, y Comisiwn a'r Ymddiriedolwyr o ran rheoli a gweinyddu Cynllun Pensiwn Aelodau Senedd Cymru. Mae Cylch Gorchwyl hefyd ar gyfer y Bwrdd Pensiynau sy'n nodi'r cyfrifoldebau hynny sy'n benodol i'r Bwrdd, gan gwmpasu'r cylch gwaith, yr hyn sy'n ofynnol gan aelodau'r Bwrdd a'r broses benodi.

Flwyddyn ers cyfnod clo cyntaf y DU yn sgil COVID-19, mae Ysgrifenyddiaeth y Cynllun yn parhau i weithio gartref. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn defnyddio offer a ddarperir gan y Comisiwn i gyflawni eu rolau, ac mae'r offer hwnnw'n sicrhau mynediad o bell ac yn caniatáu cysylltiad diogel â'r rhwydwaith. Mae'r un lefel o seiberddiogelwch yn berthnasol pan fydd staff yn gweithio o bell â phan fyddant yn mynychu'r swyddfa.

Mae mynediad llawn, di-dor at systemau TGCh y Comisiwn wedi'i gynnal yn ystod yr amser hwn heb wynebu unrhyw broblemau ac mae'r holl drafodion bancio wedi'u cynnal heb drafferth. Cynhaliwyd y gyflogres ar gyfer pensiynwyr gan dîm cyflogres y Comisiwn ac mae'r holl bensiynwyr wedi'u talu'n gywir ac ar amser. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi cael diweddariadau rheolaidd ar barhad busnes yn ystod y cyfnod hwn.

Y Fframwaith Llywodraethu

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd tri chyfarfod o'r Ymddiriedolwyr, a hynny ym mis Gorffennaf, mis Tachwedd a mis Mawrth, a dau gyfarfod arbennig ym mis Medi 2020 a mis Chwefror 2021. Cynhaliwyd pob cyfarfod ar-lein oherwydd cyfyngiadau symud o ganlyniad i'r pandemig. Mae'r tabl presenoldeb isod yn dangos cyfran yr holl gyfarfodydd y bu'r Ymddiriedolwyr a benodwyd ar y dyddiadau hynny yn bresennol ynddynt.

Enw	Canran y cyfarfodydd y bu'r Ymddiriedolwyr yn bresennol ynddynt
Jill Youds Cadeirydd	100 y cant
Mike Hedges AS Cynrychiolydd Aelodau	100 y cant
Nia Morgan Cynrychiolydd y Comisiwn	100 y cant
Ieuan Wyn Jones Cynrychiolydd Aelodau	100 y cant
Robert Evans Cynrychiolydd y Comisiwn	100 y cant

Yn ystod y flwyddyn, trafododd yr Ymddiriedolwyr yr adroddiadau manwl a ganlyn:

- Adroddiad yr Archwilydd ar y Datganiadau Ariannol
- Parhad Busnes
- Adolygiad o'r Cynghorwr Buddsoddi yn erbyn ei Amcanion
- Adolygiad blynyddol o Fuddsoddiadau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu
- Modelu Rhwymedigaethau Asedau
- Adolygiad o'r Strategaeth Fuddsoddi
- Datganiad o'r Egwyddorion Buddsoddi
- Rhwymedi McCloud
- Adroddiad Priso Actiwaraidd (2020)

Roedd y wybodaeth hon, ynghyd â phapurau briffio ychwanegol a luniwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth, yn darparu data o ansawdd da a oedd yn caniatáu i'r Ymddiriedolwyr arfer eu swyddogaethau'n effeithiol yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn. At hynny, yn sgil yr archwiliad mewnol o weinyddiaeth y Cynllun yn 2018, cofnodwyd graddfa barn sicrwydd sylweddol ar weinyddiaeth y Cynllun a daeth i'r

casgliad bod fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Cynllun yn ddigonol ac yn effeithiol ac ni wnaeth unrhyw argymhellion ar gyfer newid.

Diben y system rheolaeth fewnol

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i chynllunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisiau, nodau ac amcanion; felly, dim ond sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd y gall ei ddarparu, ac nid sicrwydd absoliwt.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus i geisio nodi'r prif risgiau i nodau ac amcanion Cynllun Pensiwn Aelodau Senedd Cymru, er mwyn gwerthuso natur a maint y risgiau hynny a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodous. Mae'r system yn seiliedig ar fframwaith o reoli gwybodaeth yn rheolaidd, rheoli ariannol, gweithdrefnau gweinyddol, gan gynnwys gwahanu dyletswyddau, a system o ddirprwyo a sicrhau atebolrwydd. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod ar waith yng Nghynllun Pensiwn Aelodau Senedd Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a chyfrifon.

Problemau sylweddol o ran rheolaeth fewnol

Ni nodwyd unrhyw broblemau sylweddol o ran rheolaeth fewnol yn ystod y flwyddyn.

Y gallu i ymdopi â risg

Caiff y cyfrifoldeb dros weinyddu a chyfrifyddu'r Cynllun o ddydd i ddydd ei ysgwyddo ar ran yr Ymddiriedolwyr gan staff yr Ysgrifenyddiaeth o fewn Gwasanaethau Ariannol Comisiwn y Senedd sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth.

Digwyddiadau data personol

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â data personol na cholli data yn ystod y flwyddyn.

Rheoli risg

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, adolygwyd y gofrestr risg ar gyfer y Cynllun, a chafodd ei diweddarau a'i chytuno gyda'r Ymddiriedolwyr fel rhan o'r cynllun busnes tymor canolig. Mae pob risg yn cael ei nodi ac yn cael sgôr yn seiliedig ar ffactorau fel y tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd a'r effaith y gallai'r risg ei chael pe bai'n digwydd. Mae'r sgôr risg yn adlewyrchu'r rheolaethau sydd eisoes ar waith i reoli pob risg a nodwyd. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn adolygu'r gofrestr risg ym mhob cyfarfod.

Defnyddiwyd y gofrestr a ddeilliodd o hyn i ganfod unrhyw fesurau ychwanegol yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i reoli'r risgiau yn effeithiol. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r risgiau sydd wedi'u nodi a'r mesurau a roddwyd ar waith i leihau eu heffaith:

- **Buddsoddiadau:** Risg na fydd buddsoddiadau yn cynhyrchu digon o adenillion gan effeithio, o ganlyniad, ar sefyllfa ariannol y Cynllun. Mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu perfformiad buddsoddiadau ym mhob un o gyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr, a bydd cynghorwr buddsoddi'r Cynllun yn paratoi adroddiad blynyddol ar berfformiad buddsoddiadau;
- **Cofnodion y Cynllun Pensiwn:** Risg o gofnodion anghyflawn neu anghywir a all arwain at daliadau anghywir / anawdurdodedig neu at wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth anghyflawn. Cadwyd cofnodion cywir o aelodau presennol ac aelodau blaenorol, trafodion i mewn ac allan o'r Cynllun a chyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr;
- **Gweinyddu'r Cynllun:** Mae'r Ymddiriedolwyr yn monitro'r camau a gymerir gan y staff gweinyddol i reoli risgiau yn eu meysydd cyfrifoldeb ym mhob un o'u cyfarfodydd;
- **Aelodau:** Mae gweithdrefn ar waith i ddatrys anghydfodau'n ymwneud â'r Cynllun gydag aelodau. Darperir gwybodaeth yn rheolaidd i aelodau'r Cynllun drwy gylchlythyron ac mewn cyfarfodydd grŵp;
- **Cydymffurfio â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR):** Rhoi'r Cynllun Gweithredu ar waith i sicrhau bod yr holl ofynion yn cael eu cynnwys a bod prosesau'n cael eu cofnodi. Rhoddwyd gweithdrefn ar waith i reoli achosion o fynediad diawdurdod i ddata. Mae'r holl Aelodau yn cael Rhybuddion Preifatrwydd. Mae Cytundeb Prosesu Data ar waith rhwng yr Ymddiriedolwyr a'r Comisiwn.
- **Parhad Busnes:** Os bydd digwyddiad difrifol, mae prosesau ar waith i sicrhau y bydd gwasanaeth arferol yn cael ei gynnal, cyhyd ag y bo modd, yn dilyn digwyddiad mawr sy'n tarfu ar weithgareddau arferol. Mae

cynlluniau ar waith i sicrhau bod pensiynau a buddion aelodau yn cael eu talu, bod cyfraniadau'n cael eu trosglwyddo ar amser ac y gellir bancio o bell.

Adolygu effeithiolrwydd

Cawn gymorth i ddatblygu a chynnal y rheolaethau mewnol gan uwch-reolwyr y Senedd sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol. Bydd Archwilwyr Mewnol Comisiwn y Senedd yn adolygu'r fframwaith rheolaeth fewnol bob blwyddyn.

Caiff ein hadolygiad o effeithiolrwydd y rheolaethau hyn ei lywio gan waith Archwilydd Cyffredinol Cymru. Caiff y sylwadau a wnaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei lythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill eu hystyried.

Rydym yn fodlon bod y rheolaethau mewnol sydd ar waith wedi bod yn effeithiol yn ystod y cyfnod dan sylw yn yr adroddiad hwn.

Cymeradwywyd ar ran yr Ymddiriedolwyr ar 5 Gorffennaf 2021 gan:

Jill Youds

Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr
(Ar ran yr Ymddiriedolwyr)

Nia Morgan

Ymddiriedolwr

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Aelodau Senedd Cymru

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cynllun Pensiwn Aelodau Senedd Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 sy'n cynnwys cyfrif y gronfa, y datganiad o asedau net a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw cyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102, y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Barn

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y cynllun yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, ac o swm a sefyllfa ei asedau a'i rwymedigaethau ar y dyddiad hwnnw, heblaw am y rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion ar ddiwedd y flwyddyn;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac
- yn cynnwys y wybodaeth a bennir yn Rheoliad 3A o Reoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gofyniad i gael Cyfrifon Archwiliedig a Datganiad gan yr Archwilydd) 1996, a wneir o dan Ddeddf Pensiynau 1995.

Sail dros y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (UK)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol o Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran ar gyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio datganiadau ariannol yn fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar y cynllun pensiwn yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn i.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, nid wyf wedi dod o hyd i unrhyw ansicrwydd o bwys yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, godi amheuon sylweddol ynghylch gallu'r cynllun i barhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg yr awdurdoddir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes gweithredol yn yr adrannau perthnasol yn yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a geir yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilio cysylltiedig. Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ar wahân i'r graddau a nodir yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd yn y cyswllt hwn. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos ei bod yn cyfateb i gamddatganiad o bwys. Os byddaf yn dod o hyd i anghysondebau sylweddol o'r fath neu os ymddengys bod camddatganiadau o bwys, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod y wybodaeth arall hon yn gamddatganiad o bwys, mae'n ofynnol imi gofnodi hynny.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr dros y datganiadau ariannol

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn y datganiad o gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr, yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi safbwynt gwir a theg, ac am unrhyw fesurau rheoli mewnol y mae'r ymddiriedolwyr yn ystyried sy'n angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol nad ydynt yn cynnwys camddatganiadau o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r cynllun i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu materion sy'n berthnasol i fusnes gweithredol fel y bo'n briodol, a defnyddio sail busnes gweithredol cyfrifyddu oni bai yr ystyrir y byddai hynny'n amhriodol.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd o gamddatganiad o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys mewn adroddiad. Gall camddatganiadau godi o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad a ystyrir eu bod o bwys os byddai'n rhesymol disgwyl iddynt, ar eu pennau'u hunain neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Byddaf yn cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ddod o hyd i gamddatganiadau o bwys mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Cael gwybodaeth gan reolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol cysylltiedig â pholisïau a gweithdrefnau Cynllun Pensiwn Aelodau Senedd Cymru yn ymwneud â'r canlynol:
 - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
 - dod o hyd i risgiau'n ymwneud â thwyll ac ymateb iddynt, ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a
 - rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu â diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried, fel tîm archwilio, sut a ble y gallai gwybodaeth ddwyllodrus gael ei chynnwys yn y datganiadau ariannol, ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll yn y meysydd a ganlyn: cydnabod refeniw, postio cylchgronau anarferol a rheolwyr yn diystyru rheolaethau;

- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cynllun Pensiwn Aelodau Senedd Cymru yn ogystal â'r fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill sy'n berthnasol i'r Cynllun, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau'r Cynllun;

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i'r risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu a oeddent yn cydymffurfio â'r deddfau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- cael gwybodaeth gan reolwyr, yr ymddiriedolwyr a'r cynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymglybiaethau a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd yr ymddiriedolwyr;
- mynd i'r afael â'r risg o dwyll a all godi os yw rheolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r penderfyniadau a wneir wrth gyflwyno amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu nad yw'n rhan o fusnes arferol.

Rwyf hefyd wedi tynnu sylw holl aelodau'r tîm archwilio at y deddfau a'r rheoliadau perthnasol a nodwyd a'r risgiau posibl o ran twyll ac wedi parhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid sydd ynghlwm wrth ddod o hyd i afreoleidd-dra, effeithiolrwydd mesurau rheoli Cynllun Pensiwn Aelodau Senedd Cymru, a natur, amseriad a chwmpas y gweithdrefnau archwilio sydd ar waith, yn effeithio ar allu fy ngweithdrefnau i ddod o hyd i dwyll.

Mae disgrifiad ychwanegol o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol:

www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad archwilio.

Ann-Marie Harkin

Ar gyfer ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru
7 Gorffennaf 2021

24 Heol y
Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Cynllun Pensiwn Aelodau Senedd Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynnal a chadw a sicrhau cywirdeb gwefan Senedd; nid yw'r gwaith y mae Archwilydd yn ymgymryd ag ef yn ystyried y materion hyn ac, oherwydd hyn, nid yw Archwilydd yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi'u gwneud i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno am y tro cyntaf ar y wefan.

Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2021

Cyfrif y Gronfa	Nodyn	2020-21	2019-20
Cyfraniadau a buddion			£
Cyfraniadau'r cyflogwr	4	950,830	960,497
Cyfraniadau'r cyflogai	4	497,500	502,071
Cyfanswm y cyfraniadau		1,448,330	1,462,568
Llog a dderbyniwyd		25	339
Incwm arall		0	0
		1,448,355	1,462,907
Buddion a dalwyd neu sy'n daladwy	5	(995,415)	(1,058,828)
Ffioedd proffesiynol	10	(294,674)	(96,665)
Treuliau gweinyddol	8	(4,426)	(5,679)
		(1,294,515)	(1,161,172)
Ychwanegiadau net o drafodion ag Aelodau		153,840	301,735
Incwm buddsoddi			
Newid yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchnad	11	8,545,715	(1,904,379)
Treuliau rheolwyr buddsoddi	12	(305,330)	(298,068)
Adenillion net ar fuddsoddiadau		8,240,385	(2,202,447)
Swm y cynnydd net yn y gronfa		8,394,225	(1,900,712)
Asedau net adeg agor y Cynllun		35,249,567	37,150,279
Asedau net adeg cau'r Cynllun		43,643,792	35,249,567

Datganiad o'r asedau net	Nodyn	Fel ar 31 Mawrth 2021 £	Fel ar 31 Mawrth 2020 £
Asedau buddsoddi			
Buddsoddiad cronedig	9	43,589,404	35,177,019
Cyfanswm y buddsoddiadau		43,589,404	35,177,019
Asedau cyfredol	6	152,164	130,208
Rhwymedigaethau cyfredol	7	(97,776)	(57,660)
Cyfanswm asedau net y Cynllun		43,643,792	35,249,567

Crynhoi trafodiadau ac asedau net y Cynllun yn unig y mae'r Datganiadau Ariannol, ac nid ydynt yn ystyried rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion sy'n ddyledus ar ôl diwedd blwyddyn y Cynllun. Ymdrinnir â safbwynt yr Actiwari, sy'n ystyried rhwymedigaethau o'r fath, yn Natganiad yr Actiwari ar dudalennau 64-**Error! Bookmark not defined.** a dylid darllen y Datganiadau Ariannol hyn ar y cyd â'r adroddiad hwnnw.

Cymeradwywyd gan yr Ymddiriedolwyr ar 5 Gorffennaf 2021:

Llofnod

Llofnod

Jill Youds

Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr
(Ar ran yr Ymddiriedolwyr)

Nia Morgan

Ymddiriedolwr

Mae'r nodiadau ar dudalennau 50-62 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Nodiadau sy'n cyd-fynd â'r Cyfrifon

1. Sail y gwaith paratoi

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi yn unol â Safon Adrodd Ariannol 102 - y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon, a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol, ac â'r canllawiau a nodir yn y Datganiad o Arferion Cymeradwy (SORP) ar Adroddiadau Ariannol Cyfrifon Cynllun Pensiwn, a adolygwyd ym mis Tachwedd 2015.

Mae'r cyfrifon yn rhoi crynodeb o drafodion ac asedau net y Cynllun. Nid ydynt yn ystyried rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion eraill ar ôl diwedd blwyddyn y Cynllun.

Mae'r adroddiad actiwaraidd yn ystyried y rhwymedigaethau hyn (gellir gweld Datganiad yr Actwari ar dudalennau 64-67).

2. Polisiâu cyfrifyddu

Dyma brif bolisiâu cyfrifyddu'r Cynllun:

Incwm o fuddsoddiadau

- Caiff incwm o adneuron arian parod ac adneuron byrdymor eu cyfrif ar sail cronïadau.
- Caiff incwm o fuddsoddiadau sy'n deillio o fuddsoddiadau sylfaenol y cyfryngau buddsoddi cronedig eu cyflwyno yn y gronfa fuddsoddi, a'u hadlewyrchu yng ngwerth yr unedau a'r cyfranddaliadau, ac nid adroddir arno ar wahân yn natganiadau ariannol y Cynllun.
- Mae llog adneuron arian parod yn cronni'n ddyddiol.

Cyfraniadau

- Rhoddir cyfrif am gyfraniadau cyflogeion pan fyddant yn cael eu didynnu o gyflog aelodau.
- Rhoddir cyfrif am gyfraniadau arferol y cyflogwr ar yr un sail â chyfraniadau cyflogeion.

Trosglwyddiadau

- Mae gwerth yr holl symiau ariannol a drosglwyddwyd i Gynlluniau pensiwn eraill yn cael eu cyfrifo a'u gwirio gan Actiwari'r Cynllun yn unol â Deddf Cynlluniau Pensiwn 1993.
- Rhoddir cyfrif am fuddion yn y cyfnod y maent yn ddyledus a rhoddir cyfrif am ad-daliadau cyfraniadau pan fyddant yn cael eu gwneud.
- Rhoddir cyfrif am drosglwyddiadau unigol allan o'r Cynllun pan delir neu pan dderbynnir y swm dan sylw, sy'n digwydd fel arfer pan dderbynnir rhwymedigaeth i aelod neu pan ryddheir o'r rhwymedigaeth honno.

Treuliau

- Rhoddir cyfrif am wariant yn y cyfnod sy'n berthnasol iddo.

Treuliau Buddsoddi Eraill

- Pan na fydd treuliau'r chwarter olaf yn hysbys ar adeg cyhoeddi'r adroddiad, caiff treuliau buddsoddi eraill eu cyfrifo ar gyfer pob cronfa o'r cyfartaledd o'r holl wybodaeth am dreuliau a oedd ar gael ym mhob chwarter ac maent yn seiliedig ar brisiadau diwedd mis.
- Yn adroddiad eleni nid oedd treuliau'r chwarter olaf yn hysbys ar gyfer y Gronfa Managed Property, felly fe'u cyfrifwyd gan ddefnyddio cyfartaledd y treuliau eraill ar draws y 3 chwarter arall.
- Darparwyd gwybodaeth arall am gostau buddsoddi gan Mobius Life ac LGIM ac fe'u cyfrifwyd drwy ychwanegu'r ffigurau 'treuliau' a rhoddir cyfrif amdanynt yn y cyfnod y maent yn ymwneud ag ef.

Trethi

Mae'r Cynllun yn Gynllun pensiwn statudol o dan Adran 611A o Ddeddf Trethi Incwm a Chorfforaethol 1988, fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 12 o Ddeddf Cyllid 1999 ac mae'n gynllun cofrestredig tybiedig o dan Ddeddf Pensiynau 2004. Felly, mae'r Cynllun wedi'i eithrio o drethiant. Cyfeirnod Treth y Cynllun Pensiwn (PSTR) yw 00462258RW.

Prisio buddsoddiadau

Caiff buddsoddiadau eu prisio ar eu gwerth teg ar ddyddiad y Datganiad o'r Asedau Net yn unol â'r hierarchaeth gwerth teg a ganlyn:

Categori (a) Y pris a ddyfynnwyd mewn marchnad weithredol am ased o'r un math.

Categori (b) Os nad yw pris a ddyfynnwyd ar gael, caiff pris trafodyn diweddar ar gyfer ased o'r un math ei addasu os oes angen.

Categori (c) Os nad yw pris a ddyfynnwyd ar gael ac os nad yw trafodyn diweddar o ased o'r un math, ar ei ben ei hun, yn amcangyfrif da o werth teg, caiff y gwerth teg ei bennu gan ddefnyddio techneg brisio sy'n defnyddio:

- c (i) data gweladwy'r farchnad; neu
- c (ii) data nad ydynt yn weladwy.

Caiff buddsoddiadau cronedig eu prasio ar bris teg a nodir ar y pris terfynol sengl sy'n cael ei gyfrifo ar sail pris terfynol y gwarannau gwaelodol ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Gall hyn fod yn wahanol i'r pris a ddefnyddir ar gyfer prynu a gwerthu unedau.

3. Yr Ysgrifenyddiaeth

Mae'r gost o ddarparu staff ar gyfer ysgrifenyddiaeth y Cynllun yn parhau i gael ei dalu'n uniongyrchol gan Gomisiwn y Senedd o dan amodau'r Memorandwm Cydddealltwriaeth y cytunodd y Comisiwn a'r Ymddiriedolwyr arno. Amcangyfrifir mai £116,215 (2019-20 £111,925) oedd y gost ar gyfer cyfnod y cyfrifon hyn.

4. Cyfraniadau Derbyniadwy

	2020-21 £	2019-20 £
Cyfraniadau'r cyflogwr:		
Normal	950,830	960,497
Cyfraniadau'r cyflogai:		
Normal	497,500	502,071
Cyfanswm	1,448,330	1,462,568

Cyfrannodd aelodau o'r Cynllun cyflog terfynol 10 y cant i gronni buddion ar sail un rhan o 40, a 6 y cant i gronni buddion ar sail un rhan o 50. Cyfrannodd aelodau'r Cynllun CARE 10.5 y cant i gronni buddion ar sail un rhan o 50 y cyfartaledd gyrfa. Mae Comisiwn y Senedd yn cyfrannu 19.9 y cant o gyflogau pensiynadwy i'r Cynllun.

5. Buddion sy'n daladwy

	2020-21 £	2019-20 £
Pensiynau	852,480	807,427
Buddion mewn Cyfandaliad	136,713	240,140
Treth oherwydd croesi'r trothwy lwfans oes neu flynyddol	6,222	11,261
Cyfanswm	995,415	1,058,828

Mae'r dreth ar fudd-daliadau a dalwyd neu a ddaw'n daladwy yn digwydd yn achos aelodau yr oedd eu buddion yn fwy na'r lwfans oes neu'r lwfans blynyddol, ac a ddewisodd gael buddion is o'r Cynllun yn gyfnewid am fod y Cynllun yn setlo eu rhwymedigaethau treth.

6. Asedau Cyfredol

	31 Mawrth 2021 £	31 Mawrth 2020 £
Arian parod yn y banc	140,982	129,916
Dyledwyr eraill a rhagdaliadau	11,183	292
Cyfanswm	152,164	130,208

7. Rhwymedigaethau Cyfredol

	31 Mawrth 2021 £	31 Mawrth 2020 £
Credydwyr: symiau'n daladwy cyn pen blwyddyn	(97,776)	(57,660)
Cyfanswm	(97,776)	(57,660)

Mae 'credydwyr: symiau'n daladwy cyn pen blwyddyn' yn cynrychioli rhwymedigaethau am waith a wnaed p'un a dderbyniwyd yr anfonebau neu beidio erbyn diwedd y flwyddyn, a rhwymedigaethau dyledus sydd heb eu talu.

8. Costau Gweinyddol

	2020-2021 £	2019-2020 £
Hyfforddiant	3,993	4,582
Costau gweinyddol eraill	433	1,097
Cyfanswm	4,426	5,679

9. Cyfryngau Buddsoddi Cronedig

	31 Mawrth 2021 £	31 Mawrth 2020 £
Baillie Gifford Diversified Growth Pension Fund	6,705,288	11,723,320
BNY Mellon Sustainable Real Return Fund	13,240,982	4,991,190
Partners Group Generations Fund	4,272,143	3,437,660
LGIM Ethical Global Equity Index Fund	6,374,959	9,285,978
LGIM Ethical Global Equity Index (wedi'i warchod)	6,185,046	0
LGIM Managed Property Fund	1,951,397	1,819,919
LGIM Over 5 Year Index-Linked Gilts Index Fund	4,017,643	3,918,952
LGIM Life Cash Fund	841,946	0
Cyfanswm	43,589,404	35,177,019

10. Ffioedd proffesiynol

	2020-2021 £	2019-2020 £
Ffioedd Actiwaraid	233,738	31,397
Ymddiriedolwr annibynnol	11,113	11,722
Ymgynghoriaeth fuddsoddi	26,083	31,316
Ffioedd archwilio	13,079	13,079
Ffioedd cyfreithiol	10,661	9,151
Cyfanswm	294,674	96,665

Caiff yr holl ffioedd proffesiynol eu dangos gyda'r Dreth ar Werth (TAW) wedi'i chynnwys.

Mae'r ffi actiwaraid llawer uwch eleni o ganlyniad i waith a wnaed mewn perthynas â'r prisiad cyllid tair blynedd sydd wedi'i gymhlethu yn sgil effaith COVID-19 a dyfarniad McCloud. Roedd hefyd angen cyngor actiwaraid ar wahân, gan gynnwys profion senario sylweddol, i ddeall goblygiadau dyfarniad McCloud a'r rhwymedi posibl. Gwnaed elfen o waith mewn perthynas â phrisio'r cap ar gostau 2017 a 2020 sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus, ac mae'r gwaith hwn ar y gweill a bydd yn parhau y flwyddyn nesaf.

11. Cysoni buddsoddiadau

Cronfa	Gwerth ar y farchnad ar 1 Ebrill 2020 (£)	Pryniannau (£)	Gwarediad au a Gwerthiant (£)	Newid yn y gwerth ar y farchnad (£)	Treuliau Rheolwyr Buddsoddi (£)	Newid net yn y gwerth ar y farchnad (£)	Gwerth ar y farchnad ar 31 Mawrth 2021 (£)
Baillie Gifford Diversified Growth	11,723,320	--	(7,161,272)	2,232,099	(88,859)	2,143,240	6,705,288
BNY Mellon Sustainable Real Return ¹	4,991,190	7,161,272	--	1,145,401	(56,881)	1,088,520	13,240,982
Partners Group Generations	3,437,660	--	--	928,344	(93,861)	834,483	4,272,143
LGIM Ethical Global Equity Index (heb ei warchod)	9,285,978	--	(4,785,249)	1,894,624	(20,395)	1,874,229	6,374,959
LGIM Ethical Global Equity Index (wedi'i warchod)	--	4,785,249	(670,000)	2,090,837	(21,040)	2,069,797	6,185,046
LGIM Managed Property	1,819,919	--	--	152,305	(20,827)	131,478	1,951,397
LGIM Over 5 Year Index-Linked Gilts Index	3,918,952	--	--	102,060	(3,369)	98,691	4,017,643
LGIM Life Cash	--	842,000	--	44	(98)	(54)	841,946
Asedau Buddsoddi Net	35,177,019	12,788,521	(12,616,521)	8,545,715	(305,330)	8,240,385	43,589,404

Cronfa	Gwerth ar y farchnad ar 1 Ebrill 2019 (£)	Pryniannau (£)	Gwarediad au a Gwerthiant (£)	Newid yn y gwerth ar y farchnad (£)	Treuliau Rheolwyr Buddsoddi (£)	Newid net yn y gwerth ar y farchnad (£)	Gwerth ar y farchnad ar 31 Mawrth 2020 (£)
Baillie Gifford Diversified Growth Fund	12,684,960	176,618	--	(1,036,910)	(101,348)	(1,138,258)	11,723,320
Invesco Global Targeted Returns Fund ¹	5,227,679	151,978	(5,466,832)	116,096	(28,921)	87,175	--
BNY Mellon Sustainable Real Return Fund ¹	--	5,466,832	--	(462,766)	(12,876)	(475,642)	4,991,190
Partners Group Generations Fund	3,744,178	--	--	(212,897)	(93,621)	(306,518)	3,437,660
LGIM Ethical Global Equity Index Fund	9,649,470	--	--	(326,698)	(36,794)	(363,492)	9,285,978
LGIM Managed Property Fund	1,914,027	--	--	(72,799)	(21,309)	(94,108)	1,819,919
LGIM Over 5 Year Index-Linked Gilts Index Fund	3,845,556	--	(15,000)	91,595	(3,199)	88,396	3,918,952
Asedau Buddsoddi Net	37,065,870	5,795,428	(5,481,832)	(1,904,379)	(298,068)	(2,202,447)	35,177,019

Dangosir dyraniad yr asedau yn Adroddiad Buddsoddi Rheolwyr y Gronfa ar dudalen 27. Ni ellir pennu'r incwm buddsoddi ar gyfer cronfeydd sylfaenol Cynllun Pensiwn Aelodau Senedd Cymru gan nad oes dosbarthiadau o'r gronfa, gyda'r holl incwm ac unrhyw adenillion treth yn cael eu cyfuno a thrwy hynny gynyddu gwerth yr unedau.

12. Treuliau'r Rheolwyr Buddsoddi

Dangosir y canrannau tâl rheoli blynyddol yn y tabl isod.

Cronfa	Tâl rheoli blynyddol (%)
Baillie Gifford Diversified Growth	0.65
BNY Mellon Sustainable Real Return Fund	0.69
Partners Group Generations	1.35
LGIM Ethical Global Equity Index (heb ei warchod)	0.35
LGIM Managed Property	0.64
LGIM Ethical Global Equity Index (wedi'i warchod)	0.365
LGIM Over 5 Year Index-Linked Gilts Index	0.08
LGIM Life Cash Fund	0.1

Dros y cyfnod, trosglwyddodd yr Ymddiriedolwyr gyfran o asedau o'r gronfa Baillie Gifford Diversified Growth i'r gronfa BNY Mellon Sustainable Real Return yn unol â newidiadau cytunedig i strategaeth fuddsoddi'r Cynllun o ran y daliadau Twf Amrywiol. Yn sgil hyn, ysgwyddodd y Cynllun gostau delio o £7,179. Cytunodd yr Ymddiriedolwyr hefyd i newid oddeutu hanner daliadau'r Cynllun yn y gronfa LGIM Ethical Global Equity Index i amrywiad o'r Gronfa GBP wedi'i warchod. Yn sgil hyn, ysgwyddodd y Cynllun gostau delio o £154. At hynny, cyflwynodd y Cynllun y gronfa LGIM Cash, fodd bynnag, nid oedd unrhyw gostau delio yn gysylltiedig â'r Gronfa dros y cyfnod.

Mae 'Treuliau Eraill' yn cynnwys ffioedd cadw a lle y bo'r Gronfa yn is-gronfa i OEIC (cwmni buddsoddi penagored) neu'n buddsoddi mewn is-gronfeydd OEIC sylfaenol, bydd hefyd yn cynnwys treuliau fel ffioedd adnau, ffioedd cofrestru a ffioedd archwilio. Codir costau masnachu uniongyrchol hefyd (treth stamp, trethi eraill a chomisiwn broceru) sy'n codi wrth brynu neu werthu stociau ar y farchnad.

Cronfa	Rheoli buddsoddiadau		Treuliau eraill		Cyfanswm	
	2020-21 £	2019-20 £	2020-21 £	2019-20 £	2020-21 £	2019-20 £
Baillie Gifford Diversified Growth	(75,998)	(85,000)	(12,861)	(16,348)	(88,859)	(101,348)
BNY Mellon Sustainable Real Return	(49,681)	(10,452)	(7,200)	(2,424)	(56,881)	(12,876)
Partners Group Generations	(53,920)	(53,782)	(39,941)	(39,839)	(93,861)	(93,621)
LGIM Ethical Global Equity Index (heb ei warchod)	(20,395)	(36,794)	--	--	(20,395)	(36,794)
LGIM Ethical Global Equity Index (wedi'i warchod)	(21,040)	(36,794)	--	--	(21,040)	(36,794)
LGIM Managed Property	(11,557)	(12,901)	(9,270)	(8,408)	(20,827)	(21,309)
LGIM Over 5 Year Index-Linked Gilts Index	(3,369)	(3,199)	--	--	(3,369)	(3,199)
LGIM Life Cash Fund	(98)	--	--	--	(98)	--
Cyfanswm	(236,058)	(231,049)	(69,272)	(67,019)	(305,330)	(298,068)

Mae 'treuliau eraill' y gronfa LGIM Managed Property yn cynnwys taliadau Rheoli Eiddo ac eitemau 'na ellir eu hadennill' fel ffioedd syrfewr trydydd parti.

13. Hierarchaeth Gwerth Teg Buddsoddi

Mae asedau buddsoddi'r Cynllun wedi cael eu priso'n deg gan ddefnyddio'r categorïau hierarchaeth fel a ganlyn yn unol â'r polisi cyfrifyddu yn Nodyn 2:

Ar 31 Mawrth 2021	Categori (a) £	Categori (b) £	Categori c (i) £	Categori c (ii) £	Cyfanswm £
Cyfrngau buddsoddi cronedig	10,583,517	28,733,744	-	4,272,143	43,589,404
Arian cadw			-		
Cyfanswm	10,583,517	28,733,744	-	4,272,143	43,589,404

Sylwer nad oedd Partners Group yn gallu rhoi cyngor ym mha categori hierarchaeth gwerth teg y dylid cynnwys y Generations Fund. O gofio natur y prisiad a thryloywder y buddsoddiadau sylfaenol ac ar ôl trafodaethau rhwng Quantum Advisory a Partners Group, ymddengys y byddai'r asedau'n cael eu categorio orau fel Categori C(ii).

Ar 31 Mawrth 2020	Categori (a) £	Categori (b) £	Categori c (i) £	Categori c (ii) £	Cyfanswm £
Cyfyngau buddsoddi cronedig	3,436,434	28,302,925	-	3,437,660	35,177,019
Arian cadw			-		
Cyfanswm	3,436,434	28,302,925	-	3,437,660	35,177,019

14. Risgiau buddsoddi

Mae amrywiaeth o risgiau yn gysylltiedig â buddsoddiadau mewn cynllun pensiwn. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn ystyried y prif risgiau a ganlyn yn barhaus:

Risg llif arian – sef risg o ddiffyg o ran asedau hylifol o'i gymharu â rhwymedigaethau uniongyrchol. Yn y tymor byr, cymharol ychydig o all-lifau arian parod sydd, ac mae'r Cynllun yn gadarnhaol o ran llif arian. Fodd bynnag, bydd yr Ymddiriedolwyr yn monitro'r risg hwn dros gyfnod ac yn addasu'r strategaeth buddsoddi yn ôl y gofyn, er mwyn sicrhau bod digon o hylifedd. Yn ystod y cyfnod, cyflwynodd y Cynllun Gronfa Arian Parod y gallai'r Ymddiriedolwyr ei defnyddio at ddibenion rheoli risg ar adegau pan fo angen lefel uchel o lif arian (fel cyn etholiad).

Risg o gamgymharu - sef risg y bydd gwerthoedd asedau a rhwymedigaethau yn newid mewn ffyrdd sy'n wahanol iawn. Mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol bod buddsoddi'n sylweddol mewn asedau twf yn creu risg o gamgymharu, ond byddant am arallgyfeirio'r asedau twf i leihau risg yr anfantais. Asesir y risg hwn yn ystod pob prisiad actiwaraid, ac fel y bydd y Cynllun yn aeddfedu bydd yr Ymddiriedolwyr yn ystyried sut i leihau'r camgymharu.

Risg rheolwr – sef risg na fydd y rheolwyr buddsoddi yn sicrhau'r adenillion a ddisgwylir gan yr Ymddiriedolwyr. Bydd y risg yn cael ei fonitro gan yr Ymddiriedolwyr, a fydd yn adolygu perfformiad y rheolwr yn erbyn ei feincnod a'i gymheiriaid yn rheolaidd. Bydd tanberfformio am gyfnod estynedig fel arfer yn arwain at ail-dendro'r mandad buddsoddi.

Risg crynhoi – sef risg bod cyfran fawr o asedau'r Cynllun yn cael eu buddsoddi mewn un dosbarth o asedau neu fuddsoddiad. Mae'r Cynllun mewn perygl os yw'r dosbarth neu'r buddsoddiad hwnnw'n tanberfformio neu'n methu. Mae'r Ymddiriedolwyr yn lleihau'r risg hwn drwy fabwysiadu strategaeth sy'n golygu buddsoddi mewn ystod o wahanol ddsbarthiadau o asedau.

Risg o ran credyd – sef risg y bydd parti i gontract yn methu â thalu neu'n methu â chyflawni ei ymrwymadau i'r Cynllun. Mae'r Ymddiriedolwyr yn lleihau'r risg hwn drwy fuddsoddi mewn cronfeydd sy'n diogelu asedau buddsoddwyr, a thrwy gadw adneuoan arian parod gyda banciau cydnabyddedig yn unig, a banciau a awdurdodwyd i gynnal busnes bancio yn y Deyrnas Unedig.

Risg arian cyfred - dyma'r risg y bydd gwerth teg neu lif arian parod ased ariannol yn y dyfodol yn amrywio oherwydd newidiadau mewn cyfraddau cyfnewid tramor. Mae'r Cynllun yn defnyddio asedau sterling, cronfeydd wedi'u gwarchod gan arian cyfred a dulliau gweithredol o reoli arian cyfred ar gyfer y rhan fwyaf o'i asedau a fuddsoddir.

Risg chwyddiant - dyma'r risg y bydd gwerth teg neu lif arian parod ased ariannol yn y dyfodol yn amrywio oherwydd newidiadau mewn chwyddiant. Mae'r Cynllun yn buddsoddi mewn cronfa Gilt mynegrifol, sy'n darparu diogelwch rhannol rhag cynnydd yn lefel chwyddiant y DU. At hynny, disgwylir i asedau'r Cynllun sy'n ceisio adenillion sicrhau adenillion sy'n fwy na chwyddiant (h.y. adenillion real cadarnhaol) dros y tymor hwy ac ar unrhyw adeg gall fod yn agored i asedau sy'n gysylltiedig â chwyddiant.

Ystyriaethau ariannol perthnasol eraill - dyma'r risg y gall ystyriaethau ariannol perthnasol (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ffactorau ESG (gan gynnwys newid hinsawdd)) effeithio ar y Cynllun o ran risg ac adenillion. O ystyried ffactorau ESG yn benodol, mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried sut y mae'r ffactorau hyn yn cael eu hintegreiddio i brosesau buddsoddi yn fwy manwl wrth: (i) benodi rheolwyr buddsoddi newydd; a (ii) monitro'r rheolwyr buddsoddi presennol. At hynny, mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried o bryd i'w gilydd gyhoeddiadau sy'n gysylltiedig â materion ESG sydd ar gael yn gyhoeddus ac yn ymwneud â'r rheolwyr buddsoddi presennol. Ymhellach, mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu cymwysterau ei reolwyr o ran ESG drwy adroddiad ESG blynyddol, ac yn holi ei gynghorwyr ynghylch ymagwedd y rheolwyr at y materion hyn yng nghyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod y mathau gwahanol hyn o risg ac yn ceisio eu lleihau cyn belled â phosibl drwy fonitro perfformiad buddsoddiadau'n rheolaidd,

drwy bolisi arallgyfeirio, drwy ystyried taliadau yn y dyfodol a thrwy adolygu priodoldeb y strategaeth fuddsoddi yn erbyn amcanion y Cynllun yn rheolaidd.

Caiff buddsoddiadau'r Cynllun eu rheoli i sicrhau bod y risgiau hyn yn cael eu cadw ar lefel sy'n dderbyniol i'r Ymddiriedolwyr. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol bod strategaeth fuddsoddi sy'n osgoi risg yn gyfan gwbl yn debygol o gynhyrchu llai o adenillion dros y tymor hwy na buddsoddiadau gydag elfen o ansicrwydd ynghylch yr adenillion. Mae'r Cynllun yn cael ei ariannu gan ddefnyddio arian cyhoeddus, ac felly mae'r Ymddiriedolwyr yn awyddus i ddarparu buddion heb i'r pris fod yn afresymol.

Wrth ystyried risg, bydd yr Ymddiriedolwyr yn ystyried cyngor eu cyngorwyr proffesiynol a'r consensws cyffredinol o ran arfer dderbyniol wrth ymdrin â Chynlluniau pensiwn galwedigaethol yn y Deyrnas Unedig. Ni fydd hyn yn atal yr Ymddiriedolwyr rhag derbyn risg yn eu strategaeth fuddsoddi pan fyddant o'r farn y bydd yn cynhyrchu elw da i'r Cynllun.

14.1. Polisi buddsoddi

Mae'r Ymddiriedolwyr yn paratoi polisi buddsoddi ar ôl gofyn am gyngor gan Quantum Advisory ynghylch pa mor addas yw dosbarthiadau penodol o asedau, gan ystyried natur, amseriad a'r math o arian a ddefnyddir mewn perthynas â rhwymedigaethau'r Cynllun, yn ogystal â'r lefel gyllido a pharodrwydd yr Ymddiriedolwyr a'r Senedd i fentro. O bryd i'w gilydd gall yr Ymddiriedolwyr hefyd ofyn am gyngor gan arbenigwyr eraill sydd â chymwysterau priodol.

Ar hyn o bryd, nid oes gan y Cynllun ddigon o asedau i'w buddsoddi'n uniongyrchol i greu portffolio o fuddsoddiadau sydd ag amrywiaeth eang. Cred yr Ymddiriedolwyr mai'r ffordd fwyaf effeithiol o fuddsoddi mewn cynhyrchion digon amrywiol yw drwy ddefnyddio cynhyrchion buddsoddi cronedig. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi penderfynu defnyddio datrysiad gweithredu Mobius Life Limited i ddarparu hyblygrwydd ar gyfer eu portffolio buddsoddi ac i leihau ffioedd gweinyddol i'r eithaf.

Mae'r meini prawf buddsoddi o ran cynhyrchion buddsoddi cronedig wedi'u nodi yn nogfennau llywodraethu'r cynhyrchion hynny. Ni all Ymddiriedolwyr cynllun pensiwn unigol sy'n buddsoddi mewn cynnyrch cronedig o'r fath benderfynu ar y meini prawf hyn na'u diwygio. Fodd bynnag, gall Ymddiriedolwyr y Cynllun roi ystyriaeth lawn i'r amcanion buddsoddi a nodwyd a'r amrywiaeth o fuddsoddiadau a ganiateir wrth benderfynu sut i fuddsoddi asedau'r Cynllun.

Er mwyn cyflawni'r amcan o amrywio asedau'r Cynllun a chaniatáu'r defnydd o ddosbarthiadau asedau twf i sicrhau'r adenillion disgwylid uwch, bydd yr Ymddiriedolwyr yn buddsoddi mewn amrywiaeth o ddosbarthiadau o asedau sy'n ceisio sicrhau adenillion tebyg i ecwiti yn bennaf. Caiff y cymysgedd o asedau yn y cronfeydd hyn ei addasu fel arfer yn ôl anghenion cynllun pensiwn nodweddiadol ac mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried bod y Cynllun o fath tebyg.

Gall yr Ymddiriedolwyr neu eu rheolwyr buddsoddi adneuo arian parod os ydynt yn aros i'w fuddsoddi, ei ailfuddsoddi neu ei dalu i aelodau, neu fel rhan o'r strategaeth fuddsoddi o bryd i'w gilydd. Rhaid adneuo arian parod mewn banc neu fanciau cydnabyddedig a awdurdodwyd i gynnal busnes bancio yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r Cynllun yn gynllun pensiwn cofrestredig o dan Bennod 2 o Ran 4 o Ddeddf Cyllid 2004. Er mwyn manteisio ar y gostyngiadau treth a roddwyd i gynlluniau pensiwn cofrestredig, bydd yr Ymddiriedolwyr yn buddsoddi dim ond mewn cynhyrchion buddsoddi cronedig a all hawlio manteision treth tebyg drwy ganiatáu mai dim ond cynlluniau pensiwn eraill a gymeradwywyd at ddibenion treth neu elusennau cofrestredig all fuddsoddi ynddynt.

Yn unol â'r polisi hwn, ac er mwyn sicrhau amrywiaeth ddigonol, mae'r Ymddiriedolwyr wedi buddsoddi mewn saith cronfa gronedig: cronfa Eiddo, dwy gronfa Twf Amrywiol, cronfa Marchnadoedd Preifat, cronfa Ecwiti Byd-eang Moesegol wedi'i gwarchod a heb ei gwarchod, a chronfa Bondiau Mynegrifol. At hynny, mae'r Cynllun yn cynnwys cronfa Arian Parod y gall yr Ymddiriedolwyr ei defnyddio at ddibenion rheoli risg ar adegau pan fo angen lefel uchel o lif arian (fel cyn etholiad),.

15. Trafodion Partïon Cysylltiedig

Yn ystod cyfnod y cyfrif mae'r Cynllun wedi cael trafodion perthnasol â Chomisiwn y Senedd, a ystyrir yn barti cysylltiedig. Datgelir y trafodion hyn yn Nodyn 3 i'r cyfrifon hyn. Nid oes yr un o'r Ymddiriedolwyr, Rheolwyr y Cynllun, staff rheoli allweddol na phartïon cysylltiedig eraill wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol â'r Cynllun yn ystod y flwyddyn.

Datganiad yr Archwilydd Annibynnol

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol am Gyfraniadau i Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Aelodau Senedd Cymru.

Rwyf wedi archwilio'r crynodeb o'r cyfraniadau i Gynllun Pensiwn Aelodau Senedd Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, a nodir ar dudalen 38.

Yn fy marn i mae cyfraniadau i'r cynllun yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, fel y nodwyd yn y crynodeb o gyfraniadau, ac a oedd yn daladwy o dan y rhestr o gyfraniadau, wedi'u talu, ym mhob ffordd berthnasol, yn unol, o leiaf, â'r rhestr o gyfraniadau a ardystiwyd gan Actwari'r Cynllun ar 5 Gorffennaf 2021.

Cwmpas y gwaith ar y datganiad am gyfraniadau

Mae fy archwiliad yn ymwneud â chael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol fod y cyfraniadau a nodir yn y crynodeb o gyfraniadau ar dudalen 38, wedi'u talu, ym mhob ffordd berthnasol, yn unol, o leiaf, â'r rhestr o gyfraniadau. Mae hyn yn cynnwys archwilio, ar sail profion, y dystiolaeth a oedd yn gysylltiedig â swm y cyfraniadau a oedd yn daladwy i'r cynllun a phryd y gwnaed y taliadau hynny, o dan y rhestr o gyfraniadau.

Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Archwilwyr

Fel y disgrifir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr ar dudalen 37, ymddiriedolwyr y cynllun sy'n gyfrifol am baratoi'r rhestr o gyfraniadau, eu hadolygu o bryd i'w gilydd a'u diwygio os bydd angen. Maent hefyd yn gyfrifol am fonitro a yw cyfraniadau'n cael eu gwneud i'r cynllun gan y cyflogwr yn unol â'r rhestr o gyfraniadau.

Fy nghyfrifoldeb i yw paratoi datganiad am gyfraniadau a dalwyd o dan y rhestr o gyfraniadau a rhoi fy marn i chi.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y chyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Cynllun Pensiwn Aelodau Senedd Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynnal a chadw a sicrhau cywirdeb gwefan Senedd; nid yw'r gwaith y mae Archwilwyr yn ymgymryd ag ef yn ystyried y materion hyn ac, oherwydd hyn, nid yw Archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi'u gwneud i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno am y tro cyntaf ar y wefan.

Datganiad yr Actiwari yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2021

Mae Cynllun Pensiwn Aelodau Senedd Cymru wedi'i eithrio o'r gofyniad a nodir yn Rheoliadau Cynlluniau Pensiynau Galwedigaethol (Datgelu Gwybodaeth) 1996 i baratoi adroddiad a chyfrifon wedi'u harchwilio cyn pen saith mis ar ôl diwedd y flwyddyn gyfrifyddu. Fodd bynnag, bwriad yr Ymddiriedolwyr yw cydymffurfio ag ethos y ddeddfwriaeth, ac yn hynny o beth, mae'r datganiad hwn wedi'i baratoi yn yr un modd â phe bai'r ddeddfwriaeth yn cael ei gweithredu.

Asesiad Actiwaraid

Cynhaliwyd asesiad actiwaraid ffurfiol o Gynllun Pensiwn Aelodau Senedd Cymru (y Cynllun) gyda dyddiad dod i rym ar 1 Ebrill 2020 a darperir y canlyniadau yn yr adroddiad dyddiedig 5 Gorfennaf 2021. Prif amcan yr asesiad actiwaraid ffurfiol yw gwneud argymhelliad i Ymddiriedolwyr y Cynllun ynghylch lefel briodol cyfradd cyfraniad y cyflogwr ar ôl y dyddiad hwnnw. Er bod swm cyfraniadau aelodau wedi'i bennu yn y Rheolau, mae cyfradd cyfraniad y cyflogwr yn cael ei bennu fel canran y cyflog sydd ei hangen i dalu balans y gost gyda'r bwriad o sicrhau y telir am fuddion y Cynllun yn ystod gwasanaeth gweithredol disgwylidig yr aelodau â'r Senedd.

Dull

Ar gyfer prisiad actiwaraid 2020, cafodd y rhwymedigaethau y disgwyliwyd iddynt gronni o dan y Cynllun yn ystod y flwyddyn yn dilyn y dyddiad prasio eu prasio gan ddefnyddio'r dull prisiad actiwaraid sef y Dull Rhagamcanu Unedau. Mynegir Cyfradd Cyfraniadau Safonol y Dull Rhagamcanu Unedau fel gwerth y buddion a gronnir yn ystod y cyfnod rheoli wedi ei rannu â gwerth presennol enillion aelodau yn ystod y cyfnod hwn. Disgwylir i'r dull prasio hwn ddarparu Cyfradd Cyfraniadau Safonol lled sefydlog ar gyfer prisiadau actiwaraid olynol cyhyd ag y bo'r dosbarthiad o aelodau'r Cynllun o ran oedran/rhywedd/cyflog a'r tybiaethau a gaiff eu mabwysiadu yn aros yn lled gyson.

Yna cymharwyd gwerth y rhwymedigaethau a gronnwyd hyd at y dyddiad prasio â gwerth asedau'r Cynllun ar yr un dyddiad. Dangosodd y prisiad ddiffyg o £1.3 miliwn. Byddai adlewyrchu hyn fel addasiad i'r Cyfradd Cyfraniadau Safonol dros 15 mlynedd wedi arwain at gyfradd cyfraniad y cyflogwr o 19.8 y cant. Fodd

bynag, ar ôl trafod â'r Ymddiriedolwyr a'r Comisiwn, cytunwyd y byddai'n ddoeth cadw cyfradd cyfraniadau cyfredol y cyflogwr o 19.9 y cant.

Ers mis Mawrth 2020 mae'r DU wedi bod yn ymdrin â'r pandemig COVID-19 sydd wedi cael effaith sylweddol ar farchnadoedd buddsoddi. Gosodwyd tybiaethau priso 2020 o dan amodau a oedd yn wahanol i'r rhai ar adeg y trafodaethau â'r Ymddiriedolwyr. Felly darparwyd amcangyfrif wedi'i ddiweddarau o sefyllfa ariannu'r cynllun ar 31 Rhagfyr 2020 i'r Ymddiriedolwyr. Dangosodd yr adolygiad hwn fod cyfradd cyfraniad y cyflogwyr o 19.9 y cant yn parhau i fod yn ddigonol.

Tybiaethau

Er mwyn cyfrifo cost buddion y Cynllun, rhaid gwneud rhai tybiaethau actiwaraidd o ran incwm disgwylidig y Cynllun yn y dyfodol a'r buddion a delir ganddo. Mae'r Gyfradd Cyfraniadau Safonol yn golygu y byddai'n ddigonol i gyllido'r buddiannau a gronnir ar ôl y dyddiad priso os yw'r profiad yn unol â'r tybiaethau a wnaethpwyd. Efallai y bydd angen addasu'r gyfradd cyfraniadau yn y dyfodol i ystyried unrhyw wahaniaeth rhwng profiadau'r Cynllun a'r tybiaethau cyllid.

Dangosir y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd ym mhriiad actiwaraidd 2017 i gyfrifo cost buddiannau'r Cynllun yn y tabl isod.

Adenillion buddsoddi, net o dreuliau, yn fwy na chwyddiant cyflog	¾ y cant y flwyddyn
Adenillion buddsoddi, net o dreuliau, yn fwy na chwyddiant pris (yn seiliedig ar y Mynegai Prisiau Defnyddwyr)	2½ y cant y flwyddyn

Hirhoedledd pensiynwyr – yn seiliedig ar dablau safonol a gyhoeddir gan yr Ymchwiliad Parhaus i Farwolaethau (tablau SAPS) gyda'r addasiadau a fabwysiadwyd ym mhriiad Cynllun Pensiwn GIG Cymru a Lloegr fel ar 31 Mawrth 2016, a gwelliannau'n unol â'r prif amcanestyniadau poblogaeth, a seiliwyd ar ffigurau 2016, ac a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Mae manylion pellach am y dulliau a'r tybiaethau a ddefnyddiwyd, gan gynnwys manylion i ba raddau y mae'r pandemig COVID-19 wedi cael ei ystyried, wedi'u nodi yn yr adroddiad ar y prisiad actiwaraidd fel ar 1 Ebrill 2020, dyddiedig 5 Gorfennaf 2021.

Cyfradd cyfraniadau

Hyd at 5 Mai 2016, roedd yr aelodau yn talu cyfraniadau i'r Cynllun a oedd yn gyfwerth â 10 y cant o'u cyflog pensiynadwy os oeddent yn cronni buddion pensiwn ar gyfradd o un rhan o 40 o'u tâl pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth, neu 6 y cant o'u tâl pensiynadwy os oeddent yn cronni buddion pensiwn ar gyfradd o un rhan o 50. Cyflwynodd Bwrdd Taliadau'r Senedd strwythur buddion newydd a ddaeth i rym ar 6 Mai 2016. Mae aelodau a oedd yn 55 oed neu'n hŷn ar 1 Ebrill 2012 yn cael eu diogelu ac wedi parhau i gronni buddion ar y strwythur buddion blaenorol hyd at 6 Mai 2021 ac yn talu cyfraniadau o 10 y cant neu 6 y cant o'r cyflog pensiynadwy. Mae aelodau ar y strwythur buddion newydd yn talu cyfraniadau i'r Cynllun ar gyfradd o 10.5 y cant o'r cyflog pensiynadwy.

Cyflwynwyd diogelwch trosiannol tebyg ar draws y sector cyhoeddus pan ddiwygiwyd y cynlluniau yn 2015. Heriwyd y diogelwch trosiannol yn y llysoedd gan aelodau o'r cynlluniau ar gyfer diffoddwyr tân a barnwyr a chanfuwyd eu bod yn gwahaniaethu ar sail oedran, sef 'dyfarniad McCloud'. Cytunwyd y bydd aelodau cymwys y Cynllun yn derbyn rhwymedi mewn perthynas â dyfarniad McCloud a gwnaed cronfa wrth gefn ar gyfer y gost hon yn rhwymedigaethau prisio 2020. Felly caniateir costau amcangyfrifedig rhwymedi McCloud yng nghyfradd cyfraniad y cyflogwr y cytunwyd arni ar ôl cwblhau cyfrifiadau prisio 2020.

Yn dilyn prisiad 2017 pennwyd cyfradd cyfraniadau Comisiwn y Senedd ar 19.9 y cant o'r tâl pensiynadwy. Roedd hyn yn cynnwys lwfans ar gyfer treuliau a dyma oedd cyfran y Comisiwn o'r gyfradd cyfraniadau safonol heb unrhyw ostyngiad wedi'i wneud i ddileu'r gwarged a oedd yn bresennol yn y cynllun ar y dyddiad hwnnw. Parhawyd i dalu'r gyfradd hon drwy gydol 2020-2021. Yn seiliedig ar y tybiaethau a fabwysiadwyd ar gyfer prisiad 2020, cyfran Comisiwn y Senedd o'r gyfradd cyfraniadau safonol yw 18.0 y cant o dâl pensiynadwy (gan gynnwys lwfans am dreuliau). Byddai angen cynnydd o 1.8 y cant i dalu am y diffyg o 1.3 miliwn ar 1 Ebrill 2020 a chytunwyd na ddylid gwneud unrhyw newid o fis Ebrill 2021 i gyfraniadau Comisiwn y Senedd o 19.9 y cant.

Diogelwch yr hawliau arfaethedig

Yn fy marn i, mae adnoddau'r Cynllun yn debygol, o dan amgylchiadau arferol, o gwrdd â rhwymedigaethau llawn y Cynllun wrth iddynt ddod yn ddyledus ac eithrio unrhyw gostau a all godi yn sgil cydraddoli GMP. Wrth fynegi'r farn hon, rwyf wedi cymryd yn ganiataol y bydd cyfraniadau'r cyflogwr a'r aelodau'n cael eu

talun i'r Cynllun fel y disgrifir yn y paragraff 'Cyfradd cyfraniadau' uchod ac y byddant yn destun adolygiad yn ystod yr asesiadau actiwaraidd nesaf.

Yr asesiad actiwaraidd nesaf

Dyddiad gweithredol prisiad ffurfiol nesaf y Cynllun gan yr actwari yw 1 Ebrill 2023. Prif ddiben y prisiad hwnnw yw asesu a yw cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr a argymhellwyd yn ddigonol, gan ystyried yr holl ffactorau perthnasol ers y prisiad blaenorol.

Julia Leunig

Cymrawd Athrofa a Chyfadran yr
Actiwariaid
14 Mehefin 2021

Adran Actiwari'r Llywodraeth
Finlaison House, 15-17 Furnival Street
Llundain EC4A 1AB